# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 4 Mehefin 2018 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor - Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Penodi Cadeirydd**

2. **Penodi Is-Gadeirydd**

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

4. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

5. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol.

6. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

7. **Diweddariad gan y Prif Gwnstabl (Mr. Mark Polin), Heddlu Gogledd Cymru**

8. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 14)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

9. **Eitemau Sefydlog ar y Rhaglen**

   **a)** Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

   **b)** Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
   (Tudalennau 15 - 16)

   *(Cyflwynwyd yn unol â'r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)*

   **c)** Rhestr o benderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Tudalennau 17 - 21)

   **d)** Adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**10. Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**a)** Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 22 - 39)

**11. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

**a)** Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2017/18 (Tudalennau 40 - 45)

**b)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 46 - 48)

**12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:**

Dydd Llun, 24 Medi 2018 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Chris Bithell | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Dana Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Alan Hunter | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Hugh Irving | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Eric Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Peter Read | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Nigel Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| Pat Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Iau, 12 Ebrill 2018, am 10.30 am
Siambr y Cyngor - Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Julie Fallon (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Alan Hunter, Hugh Irving, Neville Phillips, Peter Read, Dylan Rees, a Nigel Williams |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | John Williams |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Hefyd yn bresennol: | Stephen Hughes (Prif Weithredwr - Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid - Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd), Arfon Jones (Comisiynydd Heddlu a Throsedd), a Rhian Rees Roberts (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd) |

Atgoffodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

47. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Pat Astbury (Aelod Annibynnol wedi'i Gyfethol), Cynghorydd Dana Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Matthew Forbes (Aelod Annibynnol wedi'i Gyfethol) a'r Cynghorydd Eric Jones (Cyngor Gwynedd).

48. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Datganodd y Cynghorydd Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint) gysylltiad personol, gan ei fod yn ymddiriedolwr Uned Diogelwch Camdriniaeth Domestig Glannau Dyfrdwy, sy'n manteisio o gyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

49. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

50. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd 22 Ionawr 2018 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2018.**

51. **DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD BLAENOROL**

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHTh) ddiweddariad ar gam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol:

Cofnod 38 – Cofnodion: Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Cynghorydd Chris Bithell a Swyddogion o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd er mwyn darparu gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r nifer o achosion o gam-drin domestig yr adroddwyd arnynt dros y 12 mis diwethaf.

52. **GWEITHDREFN GWYNO DDIWYGIEDIG AR GYFER CWYNION A WNAED YN ERBYN Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD A DIRPRWY GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'r Weithdrefn Gwyno ddiwygiedig ar gyfer cwynion a wnaed yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Yn dilyn ymgynghoriad ag Aelodau o'r Panel, y cynnig bellach yw dirprwyo cyfrifoldebau statudol y Panel o ran ymdrin a phennu cwynion penodol a wneir yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i Is-Bwyllgor Cwynion fel y caniateir gan y gyfraith. Cynigiwyd bod aelodaeth yr Is-Bwyllgor Cwynion yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd ac un Aelod Annibynnol wedi'i Gyfethol (Aelod Etholedig os yw Cadeirydd neu Is-Gadeirydd yn Aelod Cyfetholedig Annibynnol).

Roedd y Weithdrefn Gwynion hefyd wedi'i newid i gynnwys: Ffurflen Gwynion, y byddai'r achwynydd angen ei llenwi pan fyddent yn dymuno cwyno yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd; i adlewyrchu'r diffiniad o gwynion cyson a gofidus; ac ymestyn amserlenni wrth ddelio gyda chwynion i 20 wythnos, oherwydd yr angen i drefnu cyfarfodydd yr Is-Bwyllgor.

Er y byddid yn ymgynghori â Phrif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar y strategaeth i ddatrys cwynion yn lleol, gofynnwyd i'r Weithdrefn Gwyno nodi y byddai gan y Comisiynydd neu'r Dirprwy Gomisiynydd hawl i ymateb cyn penderfynu ar y gŵyn, sef y drefn a oedd wastad wedi bodoli beth bynnag.

Yn ogystal, gofynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i'r Weithdrefn Gwynion ddarparu eglurhad mewn perthynas â phenderfyniadau polisi a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd neu'r Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Roedd y Swyddog Arweiniol yn hapus i gynnwys y newidiadau arfaethedig yn y Weithdrefn Cwynion.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod y Panel yn penodi Is-Bwyllgor Cwynion.**

**(b) Cymeradwyo'r Weithdrefn Gwyno ddiwygiedig ar gyfer cwynion a wneir yn erbyn Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, yn amodol ar y newidiadau uchod.**

**(c) Bod y Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol yn derbyn awdurdod dirprwyedig i wneud mân newidiadau i'r Weithdrefn Gwynion ddiwygiedig fel bo'r angen o dro i dro.**

53. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cafodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei gyflwyno gyda'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol.

Byddai swyddogion yn cwrdd â'r Prif Weithredwr o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i lenwi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer 2018/19.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

*(**Sylwer:** Nid oedd yr eitem ganlynol wedi ei chynnwys ar y rhaglen, ond fe'i hystyriwyd fel mater brys, gyda chydsyniad y Cadeirydd, er mwyn osgoi unrhyw oedi pellach o ran delio gyda'r testun).*

54. **YSTADEGAU TROSEDD TREISGAR**

*Sylwer: Ditectif Prif Arolygydd Alun Oldfield a Neil Ackers (Cofrestrydd Trosedd yr Heddlu) - Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol ar gyfer yr eitem hon).*

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru mewn ymateb i erthyglau diweddar yn y wasg ynglŷn â'r cynnydd yn y nifer o droseddau treisgar a gofnodwyd yng Ngogledd Cymru.

Roedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi ystadegau troseddu yn ddiweddar, oedd yn dangos cynnydd sylweddol yn y nifer o achosion a gofnodwyd o droseddu treisgar rhwng 2009 a 2017.

Hysbyswyd y Panel Heddlu a Throsedd bod yna nifer o resymau a dylanwadau oedd wedi effeithio ar y ffigurau, oedd yn cynnwys:

- Newidiadau i Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref rhwng 2009 a 2017 a chyflwyno Trais yn erbyn Unigolyn troseddau newydd gan gynnwys: Caethwasiaeth Fodern, Cyfathrebu Maleisus a Stelcian.Newidiadau i arferion cofnodi rhwng 2009 a 2017 a oedd yn cefnogi mwy o bwyslais ar wneud penderfyniadau cofnodi trosedd ar sail dioddefwr yn hytrach nag ar sail tystiolaeth ac roedd yr amserlen ar gyfer cofnodi trosedd wedi newid o 72 awr i 24 awr.
- Cyfraddau Cydymffurfio Uniondeb Data Arolygiadau a Throsedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi
    - Ym mis Tachwedd cyhoeddodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub adroddiad ar gofnodi trosedd, oedd yn dangos bod lefelau tan gofnodi gan yr Heddlu yn amlwg ar gyfer troseddu treisgar; bu'r troseddau hyn yn brif ffocws y rhaglen dreigl o arolygiadau.
    - Yn 2017, cafodd Heddlu Gogledd Cymru ei arolygu gan HMICFRS a gwelwyd mai 82.9% yn unig o droseddau Trais yn Erbyn yr Unigolyn a gofnodwyd, yn dilyn yr adroddiad hwnnw, roedd archwilio a hyfforddi ar gyfer cofnodwyr trosedd yn canolbwyntio ar gofnodi troseddu treisgar.

Roedd y Ditectif Prif Arolygydd Oldfield yn teimlo bod y cynnydd mewn trosedd a gofnodwyd gan yr heddlu o ganlyniad i'r dylanwadau uchod ac nad oeddem yn byw mewn cymunedau mwy treisgar; roedd data yn dangos bod cynnydd mewn trosedd a gofnodwyd gan yr heddlu yn digwydd yn genedlaethol ac nad oedd wedi'i ynysu i Ogledd Cymru.

Roedd y Cadeirydd yn cydnabod y dylanwadau oedd yn effeithio ar y ffigurau, fodd bynnag roedd yn anodd i'r Panel Heddlu a Throsedd gadarnhau pa un a oedd yna gynnydd gwirioneddol yn y nifer o droseddau.

Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd bod yna fwy o bwyslais ar annog dioddefwyr trosedd i roi gwybod am drosedd ac y dylid ystyried hyn fel cam cadarnhaol, gan fod gan y cyhoedd hyder yn Heddlu Gogledd Cymru ac roedd ffocws y Cynllun Heddlu a Throsedd ar ddiogelu pobl.

Wrth ystyried y Cynllun Heddlu a Throsedd, trafododd y Panel Heddlu a Throsedd y canlynol:

- Cyfraddau Datgelu ar gyfer troseddau troseddu treisgar
    - Byddai ffigurau'n cael eu dosbarthu i'r Panel Heddlu a Throsedd er gwybodaeth.
- Cynnydd yn y nifer o drosedd cysylltiedig â cham-drin domestig ac ail erledigaeth
    - Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn atgoffa Aelodau'r Panel am gyflwyniad gan y Ditectif Prif Arolygydd Andy Williams a ddywedodd oherwydd y newidiadau yn y modd y cofnodir trosedd, roedd yna enghreifftiau o fwy nag un trosedd yn cael ei

greu o un achos o gam-drin domestig, yn unol â'r safonau cofnodi; felly, byddai pob un o'r troseddau hyn yn cael eu categoreiddio fel cam-drin domestig, fodd bynnag un canlyniad fyddai'n dangos datgeliad.

  - Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Panel Heddlu a Throsedd bod y cynnydd mewn cam-drin domestig a throseddu treisgar o ganlyniad i gofnodi trosedd yn well, cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i ddarparu ystadegau ar y nifer o ddioddefwyr, y nifer o droseddau a gofnodwyd yn erbyn dioddefwr a'r canlyniad.
  - Yn ogystal, gofynnodd y Cadeirydd i wybodaeth gael ei darparu hefyd ar faint o amser oedd Swyddogion yn ei dreulio ar droseddu treisgar.
- Troseddau a Chanlyniadau:
  - Roedd yna 21 o ganlyniadau: Canlyniadau 1 – 8 yn cael eu hystyried yn gadarnhaol (datgeliadau o'r blaen – arestio, cyfweliad a chyhuddo).Newidiadau i'r Broses Fechnïaeth

Dywedodd Cofrestrydd Trosedd yr Heddlu mai ei rôl oedd sicrhau bod holl drosedd yn cael ei gofnodi yn unol â safonau cofnodi trosedd. Sicrhaodd Mr Ackers y Panel Heddlu a Throsedd bod y cynnydd mewn troseddu treisgar a gofnodwyd o ganlyniad yn bennaf i'r ffordd yr oedd trosedd yn cael ei gofnodi a'r dylanwadau fel yr amlygwyd uchod.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Heddlu Gogledd Cymru am y wybodaeth, oedd o gymorth i ddeall y cynnydd mewn trosedd a gofnodwyd.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu ystadegau ar y nifer o ddioddefwyr, y nifer o droseddau a gofnodwyd yn erbyn y dioddefwr hwnnw a'r canlyniad mewn perthynas â cham-drin domestig a throseddu treisgar.**

**(b) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu gwybodaeth ar faint o amser mae Swyddogion yn ei dreulio ar droseddu treisgar.**

55. **CYFLWYNIAD AR Y GANOLFAN GYMORTH I DDIODDEFWYR, GOGLEDD CYMRU (MR TOM EDWARDS)**

Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyflwyniad gan Mr Tom Edwards (Rheolwr Contractau – Cymorth i Ddioddefwyr Cymru) ar rôl a gwaith y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr yng Ngogledd Cymru.

Roedd y cyflwyniad yn sôn am y meysydd canlynol:

- Y nifer o atgyfeiriadau yn ôl ardal ddaearyddol yng Ngogledd Cymru; roedd yna gyfanswm o 34,558 o agyfeiriadau i'r gwasanaeth yn 2017/18, gyda nifer o hunan-atgyfeiriadau ac atgyfeiriadau asiantaethau eraill.
- Canolfan Gymorth i Ddioddefwyr

- Roedd yna 12 o staff yn y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr, gyda 32 o wirfoddolwyr presennol yn cefnogi'r gwasanaeth ar draws Gogledd Cymru.

- Gwaith partneriaeth gyda dros 20 partner atgyfeirio i gyfeirio dioddefwyr ag anghenion penodol, gan gynnwys MIND lleol, Cymorth i Fenywod, Hafan Cymru, Gofal, BASWO, Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig, MARAC, CAIS, Cerrig Camu a Llwybrau Newydd.
- Cynnig gwasanaeth dwyieithog gyda dewis iaith gweithredol i ddioddefwyr
- Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal cyfradd cyswllt llwyddiannus 92.8% yn 2017/18 ac roedd yn y 5 uchaf ar draws Cymru a Lloegr ac roedd wedi cyflawni'r gyfradd orau yng Nghymru yn 2017/18.

- Gwirfoddolwyr Gwerth Cymdeithasol:
  - Yn 2017/18 roedd gwirfoddolwyr wedi cynnal 489 ymweliad wyneb yn wyneb ac wedi gwneud 1222 o alwadau cefnogi, oedd yn cyfateb i oddeutu 1405.5 awr o gefnogaeth gan wirfoddolwyr.
  - Roedd amser gwirfoddolwr yn werth £15 yr awr, sy'n cynrychioli £62,000 o werth ychwanegol i Ogledd Cymru yn 2017/18.
- Hyfforddiant Gwerth Cymdeithasol:
  - Roedd gwirfoddolwyr yng Ngogledd Cymru wedi derbyn 976 awr o hyfforddiant arbenigol yn 2017/18.
  - Roedd 5 gwirfoddolwr wedi derbyn gwaith a hyfforddiant yn 2017/18, oedd yn werth ychwanegol i'r economi leol.
- Cefnogaeth arbenigol:
  - Gweithiwr Achosion Caethwasiaeth Fodern (ariannwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
  - Gweithiwr Achosion Trosedd Casineb (ariannwyd gan Wasanaeth Cefnogi ac Adrodd am Drosedd Casineb Cymru gyfan – Llywodraeth Cymru).
  - Gweithiwr Achosion Iechyd Meddwl (ariannwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd)
  - Swyddog Prosiect CSE/CSA (arian grant gan y Swyddfa Gartref)
- Trosolwg o atgyfeiriadau:
  - 29,895 o atgyfeiriadau gan yr Heddlu
  - 562 o hunan-atgyfeiriadau
  - 3021 asiantaethau eraill
  - 1080 atgyfeiriad mewnol
  - Newidiadau i'r Protocol Atgyfeirio Cam-drin Domestig ym mis Medi 2017 wedi arwain at achosion lefel isel yn unig yn cael eu dyrannu i'r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr gan Heddlu Gogledd Cymru.
- Digwyddiadau Difrifol:
  - Ar ddechrau 2017, ar ôl ymateb i gynnydd digynsail mewn ymosodiadau terfysgaeth a Digwyddiadau Tyngedfennol ac ar ôl nodi angen nas diwallwyd am gefnogaeth ychwanegol i ddioddefwyr a thystion, penderfynodd Cymorth i Ddioddefwyr agor llinell gefnogaeth 24/7.
  - Mae'r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr wedi darparu gwasanaeth hanfodol yn cefnogi dioddefwyr Digwyddiadau

Tyngedfennol eleni ac wedi cynnig un pwynt cyswllt i ddioddefwyr a gweithwyr proffesiynol.

- Yn ogystal â darparu llinell gymorth 24 awr, mae'r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr hefyd yn cynnig gwasanaeth atgyfeirio drwy e-bost a'r we i'r sawl sy'n dymuno defnyddio'r dulliau cyswllt hyn.
- Y nifer o gysylltiadau sy'n ymwneud â'r Digwyddiadau Tyngedfennol.
- Cefnogaeth a ddarparwyd i deuluoedd yng Ngogledd Cymru yn dilyn Ymosodiad Terfysgaeth yn Arena Manceinion.

- Cefnogaeth ymarferol ac emosiynol a ddarparwyd gan y Ganolfan Gymorth i Wirfoddolwyr, gan gynnwys y Gwasanaeth Atgyfeirio Cymorth Cyntaf Trawma.
- Mesuriadau Canlyniad 2017/18
- Datblygiadau'r Dyfodol:
  - Byddai pob datblygiad yn alinio gyda chynlluniau lleol ac yn parhau i symud ymlaen gyda strategaeth a gynhyrchwyd ar y cyd fyddai'n cyflawni amcanion penodol y Cynllun Heddlu a Throsedd.
  - Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Loteri Fawr, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i drafod cyfleoedd ar gyfer grant ac arian i gyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Trafodwyd nifer o syniadau i ychwanegu at y cynnig ar gyfer cymunedau lleol gan gynnwys: twyll, seiberdroseddu, bwlio ar-lein a throsedd yng nghefn gwlad. Roedd strategaeth datblygu busnes ehangach yn cael ei datblygu i arwain y gwaith hwn a byddai canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a holl fudd-ddeiliaid.

Diolchodd y Panel Heddlu a Throsedd i Mr Edwards am y cyflwyniad llawn gwybodaeth a thrafodwyd y canlynol:

- Atgyfeiriadau'r Heddlu
  - Mae'n rhaid i bob dioddefwr roi caniatâd i'r atgyfeiriadau ac roedd y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd o fis Mai 2018.
- Y nifer o Atgyfeiriadau Caethwasiaeth Fodern:
  - Roedd gan y Gweithiwr Achosion 6/7 dioddefwr ar eu llwyth achosion ar hyn o bryd.
  - Ar hyn o bryd, roedd y Gweithiwr Achosion wedi'i leoli o fewn yr Uned Caethwasiaeth Fodern, Heddlu Gogledd Cymru; byddai asesiad o'r peilot yn cael ei gynnal i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.
- Cyllid:
  - Roedd y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr yn derbyn cyllid gan y Swyddfa Gartref, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Cyllid yr UE, Loteri Fawr ac amrywiol grantiau.
- Cefnogaeth ar gael i ddioddefwyr twyll:

- Roedd y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr yn cynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol ac roedd yn y broses o lansio dau brosiect newydd; un gyda'r RBS a Barclays i gefnogi eu cwsmeriaid oedd yn ddioddefwyr twyll ac un arall gydag AGE Cymru i ddarparu cefnogaeth i'r rhai mwyaf diamddiffyn mewn cymdeithas, oedd yn dioddef camddefnydd ariannol.

- Cymorth i Ddioddefwyr yn y Llys:
  - Cafodd y Panel Heddlu a Throsedd wybod bod y Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn darparu'r Gwasanaeth Tyst, fodd bynnag byddai'r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr yn llenwi i mewn fel bo'r angen.
  - Dywedodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd bod trafodaethau ynglŷn â'r posibilrwydd o drosglwyddo cyfrifoldeb y Gwasanaeth Tyst o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn parhau.

Hefyd, hysbysodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Panel Heddlu a Throsedd ei fod yn cadeirio cyfarfodydd chwarterol o'r Bwrdd Llywodraethu, oedd yn cynnig cyfle i graffu ar waith y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr i sicrhau y cynigir y gefnogaeth orau ac y darperir gwerth am arian. Roedd y Prif Weithredwr yn canmol gwaith y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr am gefnogi dioddefwyr trosedd.

Dywedodd Mr fel gwasanaeth, bod y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr yn addasu'r Gwasanaeth i ddelio gyda thueddiadau ac anghenion sy'n codi.

Ar ran y Panel Heddlu a Throsedd, diolchodd y Cadeirydd i Mr Edwards a'r Staff a'r Gwirfoddolwyr yn y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr am eu gwaith caled.

*(Sylwer: Gadawodd y Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol y Panel Heddlu a Throsedd (Richard Jarvis) y cyfarfod am 11.25am)*

56. **CWESTIYNAU I'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Yn unol â'r Protocol ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, roedd aelod o'r cyhoedd (Mr R Hibbs) wedi cyflwyno nifer o gwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ac ymatebodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fel a ganlyn:

**Cwestiwn 1:** *Mae dogfen GIG Glasgow, y mae'r Comisiynydd yn ei ddefnyddio i lunio ei fandad yng Ngogledd Cymru yn achos busnes, nid maniffesto etholiad. Yn hytrach na dyfynnu'n helaeth o ddatganiad i'r wasg GIG, a yw'r Comisiynydd wedi astudio gwir gynnwys yr achos busnes ei hun? Os yw wedi, byddai'n darganfod bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ymchwil (75%) sy'n seilio canlyniadau effeithiolrwydd cost Glasgow yn deillio o un ganolfan gyffuriau yn Vancouver. Does bosib nad yw'r Comisiynydd yn ymwybodol bod marwolaethau cysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau yn Columbia Brydeinig wedi cynyddu'n aruthrol ers i'r cyfleuster lleihau niwed agor yn 2003 a'i fod yn cael ei redeg ar hyn o bryd oddeutu 10 gwaith y lefel yng ngogledd Cymru. Felly, a yw'r Comisiynydd yn bod yn hollol onest gyda phleidleiswyr wrth awgrymu y*

*gall model lleihau niwed aflwyddiannus mewn awdurdodaeth iechyd sy'n bell i ffwrdd achub bywyd person yng ngogledd Cymru ac arbed arian?*

**Ateb 1:** *Mae'r cynnydd mewn marwolaeth o ganlyniad i orddos cyffuriau yng Nghanada yn bennaf o ganlyniad i fentanyl yn cyrraedd y farchnad heroin anghyfreithlon – rhywbeth sydd wedi digwydd i ryw raddau yn y DU hefyd, ac wedi bod yn sbardun i nifer o sefydliadau triniaeth ddatblygu safleoedd cefnogol ar Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau. Mae Iechyd Canada, ar ôl astudio'r mater yn fanwl, wedi dod i'r casgliad mai rhan allweddol o'r ateb yw mwy o ystafelloedd cymryd cyffuriau dan oruchwyliaeth, nid llai. Dyna pam bod yna raglen i ehangu nifer y cyfleusterau hyn ar draws Canada, gydag amryw o Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau ac unedau symudol eisoes wedi agor yn Columbia Brydeinig, Montreal a Toronto, gyda mwy i ddod. Bum mewn cyfarfod yn ddiweddar a chlywed rheolwr Ystafell Cymryd Cyffuriau newydd yng nghanol Toronto (Y Gwaith) yn siarad am y mater hwn, a rôl bwysig ei chyfleuster newydd (ac eraill yn agor ar draws Canada) o ran atal gorddos yn bod yn angheuol a chynnwys pobl gyda phroblemau cyffuriau mewn triniaeth. Dyma rywbeth arall a wneir gan Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau, ac yn y tymor hir lleihau cyfraddau marwolaeth o ganlyniad i orddos – fel mae'r ACMD a llawer o leisiau awdurdodol eraill wedi nodi mewn adroddiadau yn cefnogi Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau a'u cost effeithiolrwydd. Yn fyr, byddai'r raddfa gorddos yng Nghanada hyd yn oed yn waeth heb Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau.*
*Rwy'n argymell gwylio'r fideo byr hwn yn egluro sut mae busnesau, cymunedau a'r heddlu yn cefnogi ystafell cymryd cyffuriau sydd wedi bod yn eu hardal ers 15 mlynedd.*
*http://www.drpeter.org/dr-peter-centre/knowledge-transfer/community-support-for-sis/*
*Gall y set hon o ganllawiau gweithredol ar gyfer Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau yn Columbia Brydeinig hefyd fod o ddiddordeb gan ei fod yn cynnwys adolygiad o dystiolaeth:*
*http://www.bccsu.ca/wp-content/uploads/2017/07/BC-SCS-Operational-Guidance.pdf*

**Cwestiwn 2:** *O ran mynd yn ôl i hen arferion drwg sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac amser yr heddlu, oni fyddai'r Comisiynydd yn cytuno â mi bod gwyro oddi wrth erlyniad yn gallu bod yn gamgymeriad costus o ran y gall dynnu elfen angenrheidiol o orfodaeth yn rhy fuan er mwyn sicrhau ymyrraeth gynnar a/neu ymgysylltu â gwasanaethau, a bod gwyro oddi wrth y ddalfa yn nod mwy priodol.*

**Ateb 2:** *Mae yna dystiolaeth gryf bod cynlluniau gwyro sy'n osgoi cofnodion troseddol i bobl sy'n cael eu dal gyda chyffuriau yn fwy effeithiol i leihau arferion drwg. Maent yn cael eu cefnogi gan ystod eang o grwpiau, ac adolygiadau ar sail tystiolaeth, yn fwy diweddar yn cynnwys Adolygiad Lammy i'r Swyddfa Gartref oedd yn galw iddynt gael eu cyflwyno ledled y wlad. Yn gyffredinol, mae'r bobl rwy'n siarad gyda nhw yn teimlo os byddai gan eu plentyn broblem gyda chyffuriau, byddai apwyntiad gyda meddyg a chefnogaeth yn well na chofnod troseddol a allai eu hatal rhag mynd i'r brifysgol, llawer o swyddi, neu hyd yn oed*

*teithio i rai gwledydd eraill. Y cyfan yn ei gwneud yn fwy tebygol iddynt gael problemau cyffuriau yn y dyfodol, gyda materion cysylltiol.*
*Cyf: gorfodaeth, mae'r cynlluniau gwyro ar waith yn y DU ar hyn y bryd yn cynnwys ystod o ofynion i osgoi erlyniad troseddol. Er enghraifft, mae cynllun pwynt gwirio Durham yn ei gwneud yn ofynnol i arwyddo contract 3 mis i beidio troseddu eto, a chyfarfodydd rheolaidd gyda llywiwr i fynd i'r afael â materion, gan gynnwys dibynnu ar sylweddau; tra bod Rhaglen Addysg Cyffuriau Bryste yn ei gwneud yn ofynnol i fynychu a chyfrannu'n weithredol ar gwrs addysg cyffuriau, gydag un i un i asesu ac atgyfeirio i driniaeth neu gefnogaeth arall os bydd angen. Mae methu cydymffurfio â'r gofynion hyn yn arwain at ddychwelyd i'r llwybr cyfiawnder troseddol arferol.*

**Cwestiwn 3:** *Mae mesurau'r ochr gyflenwi i leihau argaeledd cyffuriau mae'n iawn yn ei feirniadu'n wir aneffeithiol os dilynir ar wahân i fesurau ochr galw gyda ffocws ymddygiadol ar leihau lefelau cymryd a chaethiwed; ond oni fyddai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn derbyn mai'r cyfan mae ei gynigion yn debyg o gyflawni (ac yn ddadleuol eisoes yn gyflawni) yw cynnydd gwrthynysig mewn cyflenwad cyffuriau sy'n cylchredeg yng Ngogledd Cymru ac yn Wrecsam yn arbennig, gan mai'r wers ym Mhortiwgal yw y gall dilyn diwygiadau'r ochr gyflenwi ac ochr y galw gyda'i gilydd ac yn gyfartal lwyddo yng nghyd-destun poblogaeth lai yn y carchar; ac y byddai ail-frandio ei ymgyrch fel 'rhyfel ar fod yn gaeth i gyffuriau' yn neges iechyd y cyhoedd llawer cryfach sydd angen buddsoddiad dramatig o fewn gofal cychwynnol, gwasanaethau triniaeth statudol ac anstatudol a chynyddu sgiliau gweithlu cymharol anghymwys wrth fynd i'r afael â chaethiwed cymhleth, ac felly dull mwy adeiladol a gwrth-drechwr?*

***Ateb 3:*** *Rwy'n cytuno bod cynnydd mewn buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd a thriniaeth yn hanfodol, ac y byddai llai o boblogaeth yn y carchar yn ddymunol – ond ni fydd hyn yn ddigon ar ei ben ei hun. Fel y dangosir gan wledydd fel y Swistir a Phortiwgal, mae symud at ddulliau sy'n seiliedig ar iechyd yn hanfodol, a gall ryddhau adnoddau i alluogi'r heddlu a gwasanaethau eraill ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth - gan gynnwys y rhai a ddisgrifir yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.*

**Cwestiwn 4:** *Gan fod ateb y Comisiynydd yn cadarnhau nad yw canolfannau lleihau niwed o'r math y mae'n eu cynnig ar gyfer Wrecsam wedi chwarae unrhyw ran o gwbl yn y 'dull system gyfan' sydd ar waith ym Mhortiwgal ers 2001, onid yw, ers colli diddordeb ym Mhortiwgal, wedi cael chwilen yn ei ben i gomisiynu canolfan o'r fath yng ngogledd Cymru beth bynnag fo'r gost, a bod chwarae gyda'r model lleihau niwed aflwyddiannus o Columbia Brydeinig, sydd ar hyn o bryd yn gweld oddeutu 10 gwaith yn fwy o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau na Gogledd Cymru (fel y nodir yn 1 uchod) gan ddweud bod gan Bortiwgal 1/10 o gyfradd y Deyrnas Unedig yn safon ddwbl amlwg?*

**Ateb 4:** *Mae'r teuluoedd sydd a'r rhai fydd yn dioddef profedigaeth o ganlyniad i orddos o gyffuriau yn haeddu mwy gennym na gadael i'w hanwyliaid farw ar lwybrau cefn budr.*

*Felly, rwy'n cytuno y dylai Llywodraeth y DU groesawu dull Portiwgal yn llwyr, a dad-droseddoli meddiant holl gyffuriau, tra'n dargyfeirio'r arian a arbedwyd o'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys carcharu, ar gyfer triniaeth, addysg a mesurau eraill i gefnogi'r sawl â phroblemau cyffuriau. Mae'r dystiolaeth yn dangos y byddai hyn yn cynnwys manteision anferth i unigolion a'r gymdeithas yn gyffredinol. Mae defnyddio'r system cyfiawnder troseddol i stigmateiddio pobl sy'n defnyddio cyffuriau yn rhwystr grotesg a diangen iddynt ofyn am gymorth.*
*Fodd bynnag, nid yw o fewn fy ngrym i ddad-droseddoli defnyddwyr yn llwyr yn y modd hwn – y Llywodraeth a'r Senedd yn unig all wneud hynny. A byddai'n anghywir aros gyda'r gobaith y byddai'r Llywodraeth yn y pen draw yn gweld synnwyr ac yn dilyn arweiniad Portiwgal pan mae pobl yn marw nawr.*
*Felly gallai'r math o gynlluniau gwyriad rwy'n eu harchwilio fod yn gam mawr yn y cyfeiriad cywir. A gallwn gyflwyno Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau (sy'n cynnwys dad-droseddoli defnyddwyr cyffuriau lleol o fewn y cyfleuster) fyddai hefyd o gymorth. Lle yn y dyfodol, byddai Llywodraeth y DU yn newid i ddull ar sail iechyd yn genedlaethol, gan roi terfyn ar droseddoli pobl sy'n cymryd cyffuriau, cyllido triniaethau'n llawn a chyflwyno mesurau i leihau digartrefedd ar y stryd ac ati. Ac o ganlyniad, pwysau i bobl sy'n defnyddio cyffuriau ar y stryd yn gostwng i lefelau lle nad oedd angen Ystafell Cymryd Cyffuriau mwyach, yna byddwn i'n hapus iawn. Ond nid wyf eisiau cyfarfod hyd yn oed mwy o deuluoedd mewn profedigaeth diangen yn y cyfamser pan mae yna lawer y gallwn ei wneud nawr.*
*Dylid nodi er bod gan Portiwgal nawr lai na 1/10 o'r cyfraddau marwolaeth cyffuriau sydd gennym yng Nghymru, mae yna dal llawer o alw am ystafell cymryd cyffuriau yno i wneud hyd yn oed yn well.*

*Gwerthfawrogaf petai'r Comisiynydd yn darparu cysylltiadau yn y Swistir fel yr awgrymwyd, ac efallai hefyd yn Vancouver os ydynt yn ymwneud yn benodol â mynediad at wybodaeth ynglŷn â llwybrau gofal ar gyfer diagnosis dwbl rhwng InSite ac OnSite.*
**Ateb:** *Byddaf yn anfon y cysylltiadau hyn ar wahân.*

**Cwestiwn 5:** *Rwyf yn gwerthfawrogi nad oes ar y Comisiynydd eisiau mynd ar daith dewis a dethol, ond a fyddai modd iddo ddarparu ymateb mwy cyflawn i'r cwestiwn gwreiddiol ynglŷn â thystiolaeth o wasanaeth crwner Columbia Brydeinig bod pobl sy'n gaeth i gyffuriau yn dal yn marw ar eu pen eu hunain yn eu cartrefi ei hunain neu dan do 90% o'r amser, yng ngoleuni'r gyfradd marwolaethau a nodir yn 1 uchod, oherwydd yr ymddengys bod hawlio nad oes neb erioed wedi marw mewn cyfleuster chwistrellu dan oruchwyliaeth yn beth rhyfedd o ystyried y ffaith eu bod yn marw mewn mannau eraill?*

**Ateb 5:** *Mae Maer Surrey, Linda Hepnder wedi comisiynu mwy o ymchwil i'r maes hwn, ond mae ei datganiadau'n awgrymu nad yw pobl sy'n marw yn y cartref yr un fath â'r grŵp o bobl ddigartref ac yn defnyddio stryd sy'n nodweddiadol yn ffurfio crynswth o'r sawl sy'n mynychu Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau:*

*Mae'n dyfynnu ei bod yn hanfodol deall y grŵp o ddefnyddwyr "sy'n defnyddio cyffuriau gartref" yn well: "Rydym yn achub llawer ar y strydoedd y dyddiau hyn gyda'r rhaglenni sydd gennym eisoes [gan gynnwys ystafelloedd cymryd cyffuriau] ond rydym yn colli llawer o fywydau mewn cartrefi bob dydd," meddai. "Nid oes gennym y lefel o ddealltwriaeth o bwy yw'r bobl hyn a beth yw'r ffactorau sy'n eu rhoi mewn perygl mwyaf... ydyn nhw'n unig, ydyn nhw'n sâl, ydyn nhw'n dlawd, ydyn nhw'n gyfoethog? Lle mae'r holl bwyntiau croestoriad hynny lle gallwn ddweud 'Mae'r rhain y math o bethau, pe byddem wedi gwneud y rhain nawr, byddem wedi gallu newid y canlyniad."*

*Byddwn yn gwylio'r ymchwil hwn â diddordeb, ond mae'n debyg mai'r ateb yw bod angen mwy o ddarpariaeth o driniaeth, gwasanaethau lleihau niwed a chefnogaeth gymdeithasol arall ar gyfer y sawl sy'n defnyddio cyffuriau gartref A'R sawl fyddai'n defnyddio ystafell cymryd cyffuriau.*
*https://globalnews.ca/news/3899001/nearly-90-of-b-c-overdose-deaths-happen-inside-surrey-and-statscan-want-to-learn-why/*

57. **RHESTR O BENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynwyd rhestr o benderfyniadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd o 14 Tachwedd 2017 i 22 Mawrth 2018 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mewn perthynas â'r penderfyniad i dynnu allan o'r Prosiect Braenaru i Ferched, eglurodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mai'r penderfyniad oedd tynnu allan o'r Prosiect Braenaru i Ferched Cymru Gyfan ac nid y Cynllun Braenaru i Ferched lleol, a leolir yn Llanelwy; nid oedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn teimlo bod prosiect Cymru gyfan yn darparu gwerth am arian i Ogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi'r adroddiad.**

58. **ADBORTH GAN AELODAU SY'N GEFNOGWYR**

Roedd yr Aelod sy'n Gefnogwr ar gyfer Trosedd a Drefnwyd (John Williams) wedi gofyn am wybodaeth mewn perthynas ag Operation Zeus, a ddosbarthwyd i aelodau o Banel yr Heddlu a Throsedd.

Byddai'r Cefnogwr Cyllid ac Adnoddau (Cynghorydd Dana Davies) yn darparu diweddariad ar y defnydd o ymgynghorwyr yn y cyfarfod nesaf.

59. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCC) ddiweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2017 ac 1 Mawrth 2018.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion perfformiad yn erbyn chwarter cyntaf 2017-2021 Cynllun Heddlu a Throsedd. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys llythyr gan Mr Ken Finch mewn perthynas â'r cyfweliadau ar gyfer Aelodau Cydbwyllgor Archwilio.

Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi gofyn am fwy o wybodaeth i'w gynorthwyo i graffu ar gystodaeth a darparu manylion am y ddarpariaeth sydd ar gael i ferched.

Wrth graffu'r diweddariad, trafododd y Panel Heddlu a Throsedd y canlynol:

- Cam-drin domestig – pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a chysylltu ag ysgolion.
  - Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd bod modiwl addysgol (Perthynas Iach) a ddarperir mewn ysgolion o dan fygythiad ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru; roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn teimlo bod hyn yn dangos diffyg dychymyg yn arbennig gyda'r gwaith a wneir mewn perthynas â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.
  - Roedd yna lawer o waith yn cael ei wneud gydag ysgolion, yn arbennig mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, fodd bynnag roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn teimlo bod yna ddyblygu gan asiantaethau, fyddai angen derbyn sylw.
  - Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn teimlo bod angen gwneud mwy o waith, yn arbennig mewn perthynas ag ymyrraeth cyflawnwr a byddai'n codi'r mater hwn ymhellach yn y Bwrdd Gweithredol Strategol.
- Ffigurau ar gyfer dioddefwyr twyll:
  - Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yr adroddir am drosedd twyll i Action Fraud. Fodd bynnag, mae'n debyg mai nid hwn oedd y system mwyaf effeithiol ac effeithlon, ac roedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi yn archwilio Lluoedd ar hyn o bryd ynglŷn â sut yr oeddent yn ymchwilio twyll. Roedd Heddlu Gogledd Cymru yn cyflogi 1 Swyddog Twyll ar hyn o bryd, sy'n hynod dda am atal a chefnogi dioddefwyr twyll; fodd bynnag mae'n debyg y bydd angen mwy o adnoddau yn arbennig gan fod y Cynllun yn canolbwyntio ar bobl mwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas, oedd yn arfer cael eu targedu gan dwyllwyr.
- Arolwg Hyder y Cyhoedd – roedd y Cadeirydd yn cwestiynu defnyddio Heddweision a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o fewn cymunedau lleol.
  - Mewn ymateb, ailadroddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd bod defnyddio Swyddogion yn fater i'r Prif Gwnstabl ac roedd yn annog Aelodau i gysylltu â'u Harolygwyr Ardal lleol am gopi o'u cynlluniau ymgysylltu.
  - Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at drafodaethau blaenorol a chyfarfodydd gyda'r Prif Gwnstabl gan nad oedd dulliau traddodiadol o blismona yn ddefnydd gorau o adnoddau.

**PENDERFYNWYD-**

**Nodi diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

60. **AMSERLEN GYFARFOD ARFAETHEDIG AR GYFER 2018/19**

Cyflwynwyd amserlen y cyfarfodydd arfaethedig ar gyfer 2018/19 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD-**

**Cytuno ar y rhestr arfaethedig o gyfarfodydd ar gyfer 2018/19 fel a ganlyn:**

- **Dydd Llun, 4 Mehefin 2018 am 2.00pm (CCB)**
- **Dydd Llun, 24 Medi 2018 am 2.00pm.**
- **Dydd Llun, 3 Rhagfyr 2018 am 2.00pm**
- **Dydd Llun, 28 Ionawr 2019 am 2.00pm**
- **Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2019 am 2.00pm (os bydd pleidlais atal y praesept)**
- **Dydd Llun 25 Mawrth 2019 am 2.00pm**

(Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 pm)

**CWESTIYNAU I GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

| Person sy'n cyflwyno'r cwestiwn | Dyddiad Cyfarfod y Panel | Cwestiwn |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Chris Bithell | 04/06/18 | 1. Mewn erthygl yn y Sunday Times (25/03/18), mynegwyd pryder am fethiant yr Heddlu Metropolitanaidd wrth rannu gwybodaeth ynghylch plant dan fygythiad i asiantaethau eraill, megis y gwasanaethau plant, yn groes i argymhellion cryf adroddiadau o bwys yn dilyn ymchwiliadau Babi P a Victoria Climbe.<br>Honnir fod y methiant hwn i raddau helaeth oherwydd pryderon am dorri cyfreithiau diogelu data a bod y llu felly'n rhoi hawliau pedoffiliaid i breifatrwydd o flaen diogelwch a lles plant.<br><br>All y Panel a chyhoedd Gogledd Cymru fod yn sicr fod Heddlu Gogledd Cymru yn cyflawni ei ddyletswydd wrth gofnodi a rhannu gwybodaeth mor hanfodol yn rheolaidd a phrydlon gydag asiantaethau perthnasol ac yn gwneud y cyfan y gall i sicrhau fod amddiffyn, lles a diogelwch plant o'r pwys mwyaf?<br><br>Ateb<br><br>1. Mae rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid yn cael ei gefnogi a'i ategu drwy amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth.<br><br>Ym mis Tachwedd 2016 roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi creu Uned Atgyfeirio Ganolog gyda gweledigaeth i ddarparu ymateb effeithiol a anelwyd at amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn rhag niwed. Mae'r cysyniad wedi profi'n hynod fuddiol ac nawr yn cael ei ymgorffori o fewn ein sefydliad, gan gyflawni proses cwbl gyson a llyfn mewn perthynas â gwneud penderfyniadau amserol ynghyd â rhannu gwybodaeth briodol gyda'n hasiantaethau partner.<br><br>Mae atgyfeiriadau'n cael eu hasesu a'u hymchwilio yn dilyn dull safonol sydd wedi gwella'r broses gwneud penderfyniad mewn perthynas â nodi a rheoli risg yn sylweddol. Lle mae'n ymwneud â phlant a materion diogelu yn cael eu nodi, mae'r wybodaeth hon *bob amser* yn cael ei rhannu gyda'r asiantaethau partner priodol – nid oes unrhyw beth yn gwrthwneud lles a diogelwch plant. Nid yw rhannu gwybodaeth o'r fath wedi'i hynysu i gam-drin plant yn rhywiol fel yr amlinellwyd yn yr ymholiad gwreiddiol, ond yn gyfannol lle mae mater diogelu yn cael ei nodi. |

EITEM RHAGLEN 9b

2. Nododd erthygl yn yr un rhifyn o’r Sunday Times (25/03/18) bryderon am fethiant Llywodraeth y DU i gadw ei addewid i hyfforddi 1000 o swyddogion heddlu arfog erbyn mis Mawrth 2018 yn dilyn yr ymosodiadau terfysgaidd ym Mharis a Brwsel yn 2015 a 2016 ac a ail-adroddwyd yn dilyn yr ymosodiadau terfysgaidd yn Westminster, Manceinion a London Bridge.
   Yn ôl y sôn, mae penaethiaid yr Heddlu ond wedi llwyddo i berswadio 650 o swyddogion i hyfforddi i fod ag arfau.
   Beth yw’r sefyllfa bresennol yn Heddlu Gogledd Cymru ynghylch y nifer o swyddogion arfog a hyfforddwyd a’u gallu i fedru delio’n brydlon ac yn effeithlon gydag ymosodiad terfysgaidd yn y rhanbarth os byddai un yn digwydd?

Ateb

2. Yn 2014 ymunodd Gogledd Cymru a Swydd Gaer mewn cytundeb ar y cyd a chreu cynghrair plismona arfog ar y cyd. Mae gan y Gynghrair y capasiti ar hyn o bryd o ran y nifer o Swyddogion gyda Drylliau Awdurdodedig wedi eu hyfforddi, o dan ei asesiad risg a bygythiad strategol plismona arfog (APSTRA). Mae’r heddlu yn rhannu cyfleusterau hyfforddiant drylliau gyda lluoedd yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Mae swyddogion wedi eu hyfforddi yn unol ag Arferion Proffesiynol Awdurdodedig (canllawiau cenedlaethol a ddarperir ar gyfer gwasanaeth yr heddlu) ac unedau a sefydlwyd yn genedlaethol gan y Coleg Plismona. Mae swyddogion yn mynychu ymarferion rhanbarthol yn rheolaidd i brofi’r ymateb i ymosodiad drylliau terfysgwr.

   Yn eu hadroddiad a gyhoeddwyd ym Mawrth 2018 roedd HMICFRS yn asesu Heddlu Gogledd Cymru gyda’r trefniadau angenrheidiol i sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol.

| | |
|---|---|
| | **PANEL YR HEDDLU A THROSEDD**<br><br>**4 Mehefin 2018**<br><br>**COFNOD PENDERFYNIADAU**<br><br>**Adroddiad y Prif Weithredwr** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ("y Comisiynydd") yn gyfrifol am wneud nifer o benderfyniadau drwy gydol y flwyddyn. Gall y rhain gynnwys penderfyniadau ynghylch materion fel y gyllideb a'r praesept, penodiadau, blaenoriaethau plismona a thrafodion cyfreithiol.

## 2. SUT Y GWNEIR PENDERFYNIADAU

2.1 Y Polisi Gwneud Penderfyniadau sy'n nodi'r broses y bydd Comisiynydd Gogledd Cymru yn cadw ato wrth wneud penderfyniadau. Mae'n darparu'r paramedrau, yr ymdriniaeth a'r egwyddorion ac yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a chyhoeddi'r penderfyniadau a wneir.

2.2 Bydd penderfyniadau'r Comisiynydd yn ymwneud yn bennaf â chyflawni ei swyddogaethau statudol; yn ogystal, mae ar y Comisiynydd ddyletswydd statudol i gofnodi a chyhoeddi penderfyniadau o fudd cyhoeddus arwyddocaol sy'n deillio o arfer y swyddogaethau statudol hynny, boed wedi'u gwneud gan y Comisiynydd yn breifat neu o ganlyniad i gyfarfod o natur gyhoeddus neu breifat.

2.3 Mae'r gofynion statudol yng Ngorchymyn (Gwybodaeth Benodedig) Cyrff Plismona Lleol Etholedig 2011/12 a 13 ("y Gorchmynion") ar gyfer cofnodi a chyhoeddi gwybodaeth berthnasol i benderfyniadau a wneir, yn gofyn am elfennau penodol er mwyn sicrhau tryloywder ac i sicrhau unplygrwydd y rhai hynny sy'n gwneud y penderfyniadau. Bydd penderfyniadau a wneir yr ystyrir eu bod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd ac yn cael eu cyflwyno er sylw'r Panel yn yr adroddiad hwn.

## 3. CRAFFU AR BENDERFYNIADAU'R COMISIYNYDD

3.1 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am oruchwylio'r Comisiynydd a chraffu ar benderfyniadau a wneir ganddo.

3.2 Bwriad y Comisiynydd yw cyflwyno i'r panel grynodeb o'r holl benderfyniadau a wnaed ynghyd â chrynodeb o'r rheswm pam y gwnaed y penderfyniad. Bwriedir y bydd hyn o gymorth i'r Panel gyflawni ei ddyletswydd o graffu ar ei benderfyniadau.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Bod y Panel yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

## 5. COFNOD PENDERFYNIADAU

5.1 Mae'r tabl isod yn nodi'r penderfyniadau allweddol a wnaed o 23 Mawrth 2018 hyd 18 Mai 2018.

| Dyddiad | Teitl a dolenni i'r penderfyniad llawn | Crynodeb |
|---|---|---|
| 13.04.18 | Trosedd ac Anhrefn – Cyfiawnder Ieuenctid | Cyfraniad o £167,540.00 i'r Timau Troseddu Ieuenctid (TTI) gan y Grant Lleihau Trosedd ac Anhrefn. Mae manylion o'r cyfraniad i bob tîm ar gael ar y wefan. Amcan y TTI yw helpu pobl ifanc a'u harwain oddi wrth drosedd. |
| 13.04.18 | Rôl Oedolion Priodol ac Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol | Ni chaiff Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol weithredu fel Oedolion Priodol bellach os nad yw ar gyfer eu plentyn eu hunain neu oedolyn diamddiffyn sydd yn eu gofal. Gan fod Ymwelwyr Dalfeydd yn adrodd ar y ddarpariaeth oedolion priodol mewn dalfeydd ystyriwyd ei bod yn anaddas iddynt gyflawni'r ddwy rôl. |
| 25.04.18 | Tadau Gofalgar, Grŵp Cynefin | Cyfraniad o £10,000.00 tuag at Tadau Gofalgar. Dyma raglen sydd wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a lles plant drwy weithio gyda thadau sydd wedi cam-drin neu esgeuluso plant neu gam-drin eu mam o'u blaen. |
| 25.04.18 | Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) | Bydd cyfraniad o £17,471.63 ar gael gan y Grant Lleihau Trosedd ac Anhrefn i gefnogi darpariaeth IDVA yn Sir y Fflint, Conwy a Sir Ddinbych. Defnyddir yr arian i barhau i ddarparu ymyrraeth argyfwng arbenigol a gwasanaethau cynnal i ddioddefwyr cam-drin domestig risg uchel. |
| 25.04.18 | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | Mae hyn yn cadarnhau cyfraniad o £792,622.00 tuag at Y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau. Nod y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yw darparu gwasanaeth i geisio lleihau faint mae defnyddwyr sylweddau yn ei droseddu, drwy gynorthwyo'r grŵp penodol yma o bobl i dderbyn triniaeth cyffuriau. |

| | | |
|---|---|---|
| 25.04.18 | Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru (VAWDASV) | Yn dilyn cynnig yng nghyfarfod Bwrdd VAWDASV Gogledd Cymru, penderfynwyd mai Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (OPCC) ddylai fod yn gorff atebol (Bancwr Rhanbarthol) ar gyfer darparu gwasanaethau Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) ar draws yr ardal. Mae'r cyllid ar y cyd ar gyfer 2018/19 yn cynnwys y cyllid cyfredol gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r grant VAWDASV (a dalwyd gynt i'r Awdurdodau Lleol) sydd i'w cyfuno i un pot i warchod yr IDVA, ISVA, CSA, a rhaglenni troseddwyr yn y chwe awdurdod lleol. |
| 25.04.18 | Rhwydweithiau Cymunedol OWL Cymru | Darparu cyfraniad o £22,893 tuag at redeg rhwydwaith gymunedol OWL sy'n cynnwys ardaloedd yn Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r adnodd hwn yn helpu i gryfhau a datblygu cymunedau lleol drwy ddefnyddio technegol gwybodaeth a chyfathrebu i ddwyn cymunedau a'r heddlu at ei gilydd er mwyn helpu i atal trosedd. Mae hefyd yn gwella diogelwch a lles pobl sy'n byw ac yn gweithio, ac yn ymweld â Gogledd Cymru. |
| 25.04.18 | Plant a Effeithir gan Rieni yng Ngharchar (CAPI) | Gwnaed cyfraniad o £9,500.00 gan y Grant Lleihau Trosedd ac Anhrefn. Mae'r cyfraniad hwn yn cefnogi dwy swydd, Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol a Swyddog Rhaglen. Diben y prosiect aml asiantaeth hwn yw gwella dealltwriaeth o sefyllfa bresennol plant a theuluoedd a effeithir gan garchariad yng Ngogledd Cymru, clustnodi'r plant hynny a chynyddu mynediad at gymorth. |
| 25.04.18 | Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol – RASAC | Mae'r penderfyniad hwn yn ymateb i gais i ddarparu arian yn benodol i leihau'r amser aros cynyddol ar gyfer cwnsela dioddefwyr sydd wedi eu treisio, ac i gefnogi dioddefwyr sydd wedi eu treisio a'u cam-drin fel plant.<br><br>Mae cyfraniad unigol o £12,000 wedi ei wneud i gynorthwyo i ddelio gyda mwy na 100 o gleientiaid gyda mwy na 40 ar y rhestr aros am gwnsela. |

| | | |
|---|---|---|
| 25.04.18 | Gwasanaethau Dioddefwyr | Mae cyfraniad o £773,612 wedi ei wneud gan Grant Gwasanaethau Dioddefwyr i amrywiol sefydliadau yng Ngogledd Cymru er mwyn darparu gwasanaeth uniongyrchol i ddioddefwyr trosedd. Gellir gweld holl fanylion y cyfraniadau ar y wefan. |
| 14.05.18 | Cyflogaeth Prif Swyddogion yn y dyfodol | Un o argymhellion yr Ymchwiliad Leveson oedd bod Prif Swyddogion yn datgan eu cyflogaeth yn y dyfodol o fewn 12 mis o adael gwasanaeth yr heddlu wrth y Prif Gwnstabl neu wrth Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Mae'r Prif Gwnstabl wedi gwneud y datganiad hwn, a gymeradwywyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. |
| 16.05.18 | Penodi Aelod Annibynnol | Mae penderfyniad wedi ei wneud i holi i Goleg yr Heddlu benodi aelod annibynnol i fod a throsolwg dros y broses o benodi prif gwnstabl. Bydd yr aelod annibynnol yn ymwneud â'r holl broses ac yn darparu adroddiad i'r Panel Heddlu a Throsedd ynglŷn â pha mor deg ac agored yw'r broses. |

5.2 Mae gwybodaeth ychwanegol i'w chael ar wefan y Comisiynydd (**How we make decisions**).

## 6. TRAFODION CYFREITHIOL

6.1 Yn unol â'r "Gorchmynion", mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi gwybodaeth am y Contractau, Trafodion Eiddo ac Atgyfeiriadau i'r Archebion Sefydlog y mae wedi eu cymeradwyo.<0}

6.2 Rhoddir yr adroddiad hwn i'r Cydbwyllgor Archwilio er gwybodaeth ac i'w chraffu.<0}

6.3 Gellir dod o hyd i'r adroddiad diweddaraf ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 trwy glicio yma.<0}

## 7. PAPURAU CEFNDIR

7.1 Polisi Gwneud Penderfyniadau, OPCC Gogledd Cymru<0}

7.2 Gorchymyn (Gwybodaeth Benodedig) Cyrff Plismona Lleol Etholedig 2011<0}

7.3 Gorchymyn (Gwybodaeth Benodedig) Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Diwygiad) 2012<0}

7.4 Gorchymyn (Gwybodaeth Benodedig) Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Diwygiad) 2013<0}

**Awdur yr Adroddiad**

Stephen Hughes, Prif Swyddog Gweithredol
Meinir Jones, Swyddog Gweithredol<0}

{*Paratowyd yr adroddiad hwn ar 18 Mai 2018).*<0}

**Diweddariad ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd**
**4 Mehefin 2018**
***Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru***

**Cyflwyniad**

Dyma fy adroddiad i'r Panel o'r cyfnod 1 Mawrth tan 1 Mai 2018.

Mae'r adroddiad hwn yn delio â pherfformiad yn erbyn Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021. Nid yw'r adroddiad yn ymwneud â'r gofynion adrodd statudol penodol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y Panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) o'r Ddeddf, mae'n darparu'r panel â'r wybodaeth y disgwylir i'r Comisiynydd o fewn rheswm ei chyfrannu i'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

**Adran Un: Fy ngwaith craffu ar Heddlu Gogledd Cymru**

Bydd aelodau'r panel yn ymwybodol, yn 2017-2021, fy mod i wedi penderfynu blaenoriaethu'r meysydd hynny a nodwyd fel prif feysydd bygythiad, risg a niwed. Sef:

- **Cam-drin domestig**
- **Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl**
- **Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant**
- **Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol**

Yn ychwanegol at y blaenoriaethau hyn, mae gwasanaeth heddlu gweladwy a hygyrch yn parhau i fod yn bwysig i'r cyhoedd. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r hyn mae'r cyhoedd a'r Panel Heddlu a Throsedd wedi dweud wrthyf ac mae **Darparu Cymdogaethau Diogel** yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi.

Yn unol â hynny, rwyf nawr yn craffu ar Heddlu Gogledd Cymru trwy fesur ei berfformiad yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn. Mae'r prif gyfrwng yr wyf yn cyflawni'r swyddogaeth graffu honno yn parhau i fod y Bwrdd Gweithredol Strategol (SEB) yr wyf yn ei gadeirio, ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno. Cyflwynir adroddiad perfformiad gan yr Heddlu ym mhob cyfarfod SEB sy'n nodi'r sefyllfa a'r heriau presennol mewn perthynas â phob blaenoriaeth.

Er byddaf yn monitro perfformiad yr Heddlu yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn yn fy nghyfarfodydd SEB, mae'n ofynnol wrth gwrs bod agweddau eraill ar blismona yn parhau i gael eu cyflwyno'n effeithiol ac yn effeithlon. Yn hynny o beth, craffir ar rywfaint o wybodaeth am blismona craidd yn yr SEB hefyd.

**Blaenoriaeth 1: Cam-drin Domestig**

Mae gwelliannau sylweddol yn parhau i gael eu gweld mewn adolygiadau a gynhaliwyd mewn perthynas ag ymchwiliadau cam-drin domestig, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, stelcian ac aflonyddu, o'i gymharu â llinell sylfaen Mawrth 2017. Rhoddwyd sylwadau ar y cynnydd hwn mewn adroddiadau arolygu diweddar.

Er bod cynnydd o 20.8% wedi bod mewn dioddefwyr mynych o’r naill flwyddyn i’r llall, mae’r tuedd diweddar yn mynd tuag at i lawr. Mae hyn yn cael ei ymchwilio i ddeall a yw hyn yn gysylltiedig â chanlyniadau cadarnhaol o’r gweithgaredd ar hyn o bryd. Mae’r lefel o droseddau mynych wedi gweld gostyngiad o’r naill flwyddyn i’r llall hefyd, gyda gostyngiad ar hyn o bryd o 6.8%.

**OFFICIAL SENSITIVE - FOR POLICE USE ONLY**

**Repeat Victims - Domestic Abuse**

Definition: Victims of domestic abuse during the last full week who have also been a victir

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales


Week 52

| Current Week | YTD | LYTD | % Change |
|---|---|---|---|
| 36 | 2,197 | 1,819 | **20.8%** |

Document Last Refreshed: 06/04/2018 02:31


**Current Signals**

| Ynys Mon | Gwynedd North | Gwynedd South | West Conwy | Denbigh Coastal | Conwy Rural | Flintshire North | Flintshire South | Wrexham Town | Wrexham Rural |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |




Mae data Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dangos bod achosion llys Cam-drin Domestig yn gyson, ac yn gadarnhaol:

| | Llwyddiannus | Cyfanswm yr Achosion | % llwyddiannus |
|---|---|---|---|
| Mis | 79 | 97 | 81.4% |
| Blwyddyn hyd yma | 874 | 1079 | 81.0% |
| Llynedd hyd at yr adeg yma | 770 | 992 | 77.6% |




**OFFICIAL SENSITIVE - FOR POLICE USE ONLY**

**Repeat Offenders - Domestic Abuse**

Definition: Domestic abuse offenders during the last full week who have also committed a dom

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales


Week 52

| Current Week | YTD | LYTD | % Change |
|---|---|---|---|
| 12 | 833 | 894 | **-6.8%** |

Document Last Refreshed:
05/04/2018 07:51

**Current Signals**

| Ynys Mon | Gwynedd North | Gwynedd South | West Conwy | Denbigh Coastal | Conwy Rural | Flintshire North | Flintshire South | Wrexham Town | Wrexham Rural |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |




Mae gwaith yn mynd rhagddo i hysbysebu a chyflogi staff i gynnal arolygon dioddefwyr cam-drin domestig. Bydd y tîm hwn o fewn y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr. Bydd hyn yn sicrhau y bydd cyfleoedd i nodi rhagor o anghenion cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig.

Nid yw'r Coleg Plismona wedi cyhoeddi Arfer Proffesiynol Awdurdodedig ar Stelcian ac Aflonyddu eto. Fodd bynnag, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi asesu bod y gwaith hwn o'r pwysigrwydd mwyaf i

wella ei wasanaeth i ddioddefwyr o’r troseddau hyn, ac mae'r gwaith hwn wedi mynd rhagddo fel blaenoriaeth. Mae’r pecyn hyfforddi a ddarparwyd i swyddogion wedi’i gefnogi gan ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar ffurf posteri wedi’u hargraffu a’r fewnrwyd.

**Sut ydw i wneud gwneud gwahaniaeth yn ystod y cyfnod hwn?**


- Rydw i’n parhau i weithio gyda chynrychiolwyr o Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn yr Heddlu, i graffu ar achosion cam-drin domestig a materion PVPU eraill. Mae fy nhîm ar hyn o bryd yn gweithio gyda’r Heddlu i gytuno ar ddull o nodi materion sy’n amlygu eu hunain mewn achosion Cam-drin Domestig, a sut y gellir dysgu gwersi o’r materion hynny.
- Mae Dr Cerys Miles wedi ymuno â’r tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn Llywodraeth Cymru. Mae Dr Miles yn seicolegydd fforensig sy’n gweithio fel Pennaeth Polisi Cyflawnwyr ar gyfer VAWDSV ar draws Cymru, gan ddatblygu’r datblygiad a’r comisiynu o wasanaethau cyflawnwyr effeithiol. Fe wnes i gyfarfod gyda Dr Miles a Nazir Afzal, Ymgynghorydd VAWDASV Rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, i drafod sut y gallwn symud ymlaen gydag ymyriadau cyflawnwyr yng Ngogledd Cymru, drwy ein Bwrdd VAWDASV.
- Aeth cynrychiolwyr o fy nhîm i gyfarfodydd Bwrdd Strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru. Mae Asesiad Anghenion a Strategaeth y Bwrdd wedi cael cytundeb a’u llofnodi bellach, ac mae’r ffocws yn symud i'r cynllun gweithredu i ddarparu'r rhaglen hanfodol hon;
- Mae canllaw drafft Llywodraeth Cymru ar gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru wedi’i gyhoeddi’n ddiweddar. Rydym yn y broses o ddrafftio safbwyntiau Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar y canllaw, fodd bynnag, rydw i’n hyderus ein bod mewn sefyllfa gref yn lleol, ac mae’r fframwaith comisiynu y gwnaeth fy swyddfa helpu i’w ddatblygu gyda chydweithwyr y Bwrdd VAWDASV yn cydymffurfio’n llawn â’r canllaw drafft;
- Fe wnaeth Gweinyddiaeth Gyfiawnder Llywodraeth EM gyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddar ar Drawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig. Fe wnaeth fy Mhrif Weithredwr a minnau fynd i ddigwyddiad gweinidogaethol yng Nghaerdydd i drafod yr ymgynghoriad. Mae’r ymgynghoriad yn cau 31 Mai 2018.
- Fe aeth fy swyddog arweiniol ar Gam-drin Domestig i Gynhadledd Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh “Rhowch wybod am stelcian: Arfer gorau mewn achosion stelcian” yn Llundain yn ddiweddar. O ganlyniad i fynd i’r gynhadledd hon, mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu faint o bobl sydd wedi’u harestio yn y flwyddyn hyd yma, ac wedi hynny, eu cyhuddo gyda throseddau stelcian yng Ngogledd Cymru; pa gymorth penodol sydd ar gael i ddioddefwyr stelcian yng Ngogledd Cymru, a yw Hysbysiadau Gwybodaeth Heddlu’n cael eu rhoi yng Ngogledd Cymru mewn achosion stelcian; sut mae swyddogion HGC a staff ystafell reoli'n cael eu hyfforddi i gydnabod gweithred o stelcian; ac unwaith y nodir stelcian, a oes ymateb aml-asiantaethol i anghenion dioddefwyr ac ymddygiad y cyflawnwr?

**Blaenoriaeth 2: Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl**

Mae llawer iawn o weithgaredd yn parhau i ddigwydd, gyda rhywfaint ohono'n cael cydnabyddiaeth yn genedlaethol.

Mae gwaith partneriaeth helaeth yn parhau ac yn cael ei ddatblygu.

Adroddwyd ynghylch pedair trosedd caethwasiaeth fodern ym mis Rhagfyr, y mis sydd newydd gael ei archwilio. Mae'r achosion hyn wedi'u hadolygu'n ddiweddaru yn y cyfarfod Panel Craffu ar Gaethwasiaeth Fodern, lle caiff fy swyddfa ei chynrychioli.




**Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol gan Heddlu Gogledd Cymru rhwng 1 Mawrth ac 1 Mai o ran y flaenoriaeth blismona hon:**

- Ymgyrch Do Disturb wedi'i chyflwyno yn nhref Llandudno ar y cyd â Thîm Plismona'r Gymdogaeth, Swyddog Cefnogi Dioddefwyr, Cwnstabliaid Arbennig a Soroptimyddion.
- Ymwelodd Tîm Caethwasiaeth Fodern Heddlu Gwent i gyflwyno eu tîm newydd ac i drafod beth sy'n gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru.
- Aeth Swyddogion i lochesi digartref ar draws Gogledd Cymru, i gyflenwi manylion a phosteri Caethwasiaeth Fodern.
- Mewnbwn i Gynghorwyr Conwy, ynghyd â swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- Codi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ar ddiwrnod Rhyngwladol y Merched gyda'r Soroptimyddion.
- Trefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth / cynhadledd gyda'r Gwasanaeth Iechyd – i'w darparu i nyrsys o ran defnyddwyr cyffuriau a materion llinellau sirol.

- Adborth cadarnhaol wedi dod i lawr o ran proffil uchel Caethwasiaeth Fodern yn yr ardal gan HMICFRS.
- Mae cyflwyniadau cudd-wybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd yn parhau i wella gyda chwe adeilad wedi'u nodi ar gyfer ymyrraeth yn ddiweddar. Mae cyflwyniadau cudd-wybodaeth yn parhau i gael eu rhannu ac mae ymgyrchoedd aml-asiantaeth wedi'u cynnal yn y lleoliadau priodol. Mewn achosion lle nad oes unrhyw droseddaeth, mae canlyniadau cadarnhaol eraill wedi'u cyflawni yn defnyddio deddfwriaeth partneriaid – er enghraifft, yr isafswm cyflog ac ati.
- Sesiwn codi ymwybyddiaeth wedi'i rhoi i Gymdeithas Tai Cartrefi Conwy. Mae cynrychiolwyr o Gartrefi Conwy nawr wedi'u gwahodd i'r Bwrdd Partneriaeth Caethwasiaeth Fodern.
- Mae 6 SPOCs Awdurdod Lleol ar gyfer Caethwasiaeth Fodern wedi'u nodi nawr.

Sut ydw i wneud gwneud gwahaniaeth yn ystod y cyfnod hwn?

- Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cael ei chynrychioli ar banel Craffu Caethwasiaeth Fodern, sy'n adolygu achosion Caethwasiaeth Fodern yn erbyn safonau ymchwilio cenedlaethol, i asesu cydymffurfiad.
- Rwy'n cael fy nghynrychioli ar Grŵp Caethwasiaeth Fodern Rhanbarthol Gogledd Cymru. Nid oes cyfarfod arall o'r Grŵp Caethwasiaeth Fodern Rhanbarthol wedi bod ers fy niweddariad diwethaf. Bydd y cyfarfod nesaf yn digwydd dydd Mercher 13 Mehefin. Mae gwahoddiad wedi'i roi i Mrs Pat Astbury fel aelod arweiniol y Panel ar Gaethwasiaeth Fodern i ddod i'r cyfarfod penodol hwn.
- Rydw i wedi anfon llythyr ar y cyd gydag Annwen Morgan, sy'n gadeirydd y Grŵp Rhanbarthol, i'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i annog rhagor o gyfranogiad gan bartneriaid, yn enwedig aelodau etholedig awdurdod lleol. Rwy'n edrych ymlaen at weld yr aelodau enwebedig o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cyfarfod rhanbarthol nesaf.
- Rwy'n parhau i fonitro perfformiad yr Heddlu ar gaethwasiaeth fodern drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol.
- Rwy'n mynychu cyfarfodydd chwarterol o Rwydwaith Gwrth-fasnachu a Chaethwasiaeth Fodern Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.
- Fe wnes i ymweld â thîm Ymgyrch Lenten, ymchwiliad parhaus i droseddau cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a chaethwasiaeth fodern. O ganlyniad i'r ymchwiliad hwn, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cofnodi cannoedd o droseddau, yn cynnwys troseddau caethwasiaeth fodern. Mae dioddefwyr ifanc a diamddiffyn wedi'u nodi ac yn parhau i gael cefnogaeth gan y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr.

**Blaenoriaeth 3: Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant**

Mae lefelau cyfredol o droseddau Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn parhau'n isel heb fawr o erledigaeth neu droseddu ailadroddus.

Daethpwyd i gytundeb yn rhanbarthol i ail-gyflwyno Tîm Cyfweliad Dychwelyd Adref (roedd Barnardo's yn arfer darparu'r gwasanaeth hwn cyn y tynnwyd cyllid yn ôl), a fydd yn cwblhau'r cyfweliadau dychwelyd adref i blant ar goll ar draws Gogledd Cymru. Dylai'r tîm hwn wella'r darlun cudd-wybodaeth o blant ar goll a fydd yn llywio'r gweithgareddau ymyrryd a wneir gan Heddlu Gogledd Cymru.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cynlluniau gweithredu ar y cyd i sicrhau gwasanaeth cyson ac o ansawdd uchel i bob dioddefwr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

Mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol ac amserol rhwng asiantaethau partner yn hanfodol bwysig yn y frwydr yn erbyn Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn y broses o ddrafftio Protocol Rhannu Gwybodaeth rhanbarthol ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Plant ar Goll a Masnachu.

Mae Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn gweithio ar y cyd â Gweithiwr Cymdeithasol CSE Rhanbarthol i gwblhau archwiliad ynghylch achosion CSE. Bydd yr archwiliad hwn yn adolygu amserlenni ymchwilio a'r rhwystrau posibl sy'n cael eu profi ar hyn o bryd ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Bydd canlyniad yr archwiliad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Gweithredol CSE i ddylanwadu ar arferion gwaith gwell ar draws Gogledd Cymru.

**OFFICIAL SENSITIVE - FOR POLICE USE ONLY**

Document Last Refreshed: 06/04/2018 00:08


HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

Week 52

| Current Week | YTD | LYTD | % Change |
|---|---|---|---|
| 1 | 83 | 81 | **2.5%** |

Current Signals

| Ynys Mon | Gwynedd North | Gwynedd South | West Conwy | Denbigh Coastal | Conwy Rural | Flintshire North | Flintshire South | Wrexham Town | Wrexham Rural |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | High (1) |




Mae disgwyl y bydd canllaw amharu ar CSE yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Disgwylir i'r canllaw cenedlaethol gael ei ryddhau cyn cyhoeddi a lansio canllaw amharu ar CSE. Bydd y canllaw hwn yn

addysgu ac yn llywio’r gweithgaredd amharu yn y gymdogaeth, ac ar lefel troseddau cyfundrefnol difrifol.

Mae Hysbysiadau Rhybudd Herwgydio Plant (CAWN) yn offeryn defnyddiol wrth amharu ar CSE. Mae’r canllaw cyfredol yn cael ei adolygu a bydd yn cael ei ail-lansio i gynyddu eu defnydd a'u heffeithiolrwydd. Nid yw’r canllaw CAWN Cenedlaethol a’r pecyn offer amhariad wedi'u rhyddhau eto, ond fe ddisgwylir nhw’n fuan. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu ac yn ffurfio rhan o arferion HGC.

Mae nifer o heddluoedd ar draws y wlad wedi bod yn defnyddio llythyrau rhybuddio at y rhai a ddrwgdybir o gyflawni CSE. Mae’r rhain wedi cael eu defnyddio pan fydd yr heddlu â phryderon lefel isel am ymddygiad unigolyn tuag at blentyn, ond pan nad ydyw'n gyfystyr â throsedd. Mae cyngor ac arweiniad wedi’i geisio gan yr heddluoedd ac mae llythyr sy'n benodol i Ogledd Cymru wedi'i ddrafftio. Yn dilyn cyfarfod gyda Sefydliad Lucy Faithful, bydd y llythyrau hyn yn cael eu cyhoeddi ar y cyd a thaflenni sy’n cyfeirio troseddwyr i geisio cefnogaeth a chymorth gan Sefydliad Lucy Faithful.

Mae Protocol CSE o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru ar hyn o bryd. Bydd y canllaw yn cael ei gyhoeddi ar ffurf drafft ar gyfer ymgynghoriad ym mis Medi.


**Sut ydw i wneud gwneud gwahaniaeth yn ystod y cyfnod hwn?**

- Yn ystod ymweliad â Danger Point, cefais fy ngwneud yn ymwybodol o’r peryglon y mae’r ap cyfryngau cymdeithasol Musical.ly yn ei gyflwyno i blant. O ganlyniad, rwyf wedi annog rhieni i gynyddu’r gosodiadau diogelwch a phreifatrwydd ar ffonau symudol ac apiau eu plant. Mae’r ap penodol hwn yn eich caniatáu i wneud ‘lip sync’ i ganeuon ac fe gaiff ei bostio ar-lein, unwaith y bydd y fideo wedi’i uwchlwytho, gall pobl roi sylwadau a gwahodd unigolion i sgyrsiau grŵp. Mae’r ap yma’n gallu cael ei ddefnyddio i fagu perthynas amhriodol ac annog pobl ifanc ar-lein.
- Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am beryglon yr ap Muscial.ly, rydw i hefyd wedi rhybuddio plant a gwarcheidwaid am y gosodiadau lleoliad ar yr ap Snapchat. Mae’r gwasanaeth lleoliad ar ffonau’n caniatáu dilynwyr i weld union leoliad unigolyn. Mae hyn yn peri pryder mawr ac yn rhoi unigolion mewn sefyllfa ddiamddiffyn; gellir ei ddefnyddio fel offeryn gan y rhai sy’n ysgogi perthynas amhriodol ar-lein i nodi lleoliadau plant. Eto mae angen i rieni a gwarcheidwaid fod yn ymwybodol a bod â’r wybodaeth gywir am sut i amddiffyn eu plant.
- Aeth cynrychiolydd o fy swyddfa i Gynhadledd Sefydliad Lucy Faithful. Nod y gynhadledd oedd annog gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau brys, cynghorau sir, sefydliadau addysg a thrydydd sector i leihau'r bygythiad mae CSE yn ei beri i'n cymunedau lleol.

**Blaenoriaeth 4: Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol (OCG)**

O’r naill flwyddyn i’r llall, bu cynnydd o 6.1% mewn digwyddiadau Cyffuriau, i fyny o 1270 i 1347. Mae’r mwyafrif o’r rhain wedi bod yn droseddau meddiant.

Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr – Canfyddiadau o Ddefnydd Cyffuriau




Mae canfyddiadau o ddefnydd cyffuriau (faint o broblem yw pobl yn defnyddio neu'n delio cyffuriau o fewn taith gerdded 15 munud o'u cartref), yn 27.3% am y 12 mis hyd at fis Medi 2017, gan ddangos gostyngiad 3.1 pp negyddol o’r 12 mis at Fehefin 2017. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gostwng 2 le i'r 30ain safle yn genedlaethol, hefyd yn disgyn i'r 8fed safle yn ein MSG ond yn parhau i fod yn 1af yng Nghymru.

Mae Ymgyrch Scorpion yn parhau i gael sylw cadarnhaol yn y cyfryngau ac yn tynnu sylw at y ffaith bod mynd i’r afael â Throseddau Cyfundrefnol Difrifol yn flaenoriaeth i’r heddlu.

Ymgyrch Zeus – Ymchwiliad mawr i weithgareddau troseddol unigolion yn cyflenwi cyffuriau a reolir ar draws ardal Gogledd Orllewin Cymru. Bydd y cam cyntaf yn dod i ben yn y cyfnod sydd i ddod, gyda nifer fawr o ddiffynyddion wedi pledio’n euog. Bydd hyn yn gyfle pellach i dynnu sylw at ganlyniadau ymwneud â Throseddau Cyfundrefnol Difrifol.

Mae cudd-wybodaeth yn dangos bod 2 Grŵp Troseddau Cyfundrefnol â Llinellau Sirol wedi symud o ardal yr heddlu, oherwydd bod gweithrediadau'r heddlu yn eu holrhain ac yn amharu ar unigolion ac adeiladau dan sylw.

Mae adnoddau rhagweithiol sy’n gweithio’n agos gyda’r Timau Cymdogaethau Mwy Diogel wedi parhau i dargedau’r rhai hynny sy’n cyflawni Troseddau Cyfundrefnol Difrifol ar draws trefi a chymunedau Gogledd Cymru gyda llwyddiant mawr:

- Ymgyrch Lamberts - 3 unigolyn wedi'u dyfarnu'n euog a'u dedfrydu i'r carchar am 10 mlynedd oherwydd cynllwyn i gyflenwi cyffuriau dosbarth A
https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/heroin-crack-cocaine-flintshire-gang-14149860

- Sylw Cyfryngau Lleol ynghylch cyflenwyr cyffuriau'n targedu cartrefi pobl ddiamddiffyn yng Nglannau Dyfrdwy
http://www.leaderlive.co.uk/news/16032699._Cuckoo__drug_dealers_targeting_homes_of__vulnerable_people__in_Deeside/

- Cyrchau cyffuriau mewn eiddo ar draws Glannau Dyfrdwy wedi'u cyhoeddi (15/03/18)
http://www.leaderlive.co.uk/news/16089604.Large_quantity_of_suspected_Class_A_drugs_seized_as_North_Wales_Police_carry_out_raids_in_Deeside/

- Sylw yn y wasg leol am warantau cyffuriau yn y Rhyl
https://www.north-wales.police.uk/news-and-appeals/more-drugs-warrant-success-in-rhyl

- Sylw yn y cyfryngau lleol a rhanbarthol am arestiadau Ymgyrch Rattle
https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/armed-police-drug-dogs-drones-14330978
https://www.liverpoolecho.co.uk/news/liverpool-news/norris-green-drug-dealer-jailed-14108210

- Cyfryngau lleol a chenedlaethol yn adrodd ar ddedfrydu Ymgyrch Ulysses. Roedd hwn yn ymchwiliad dan arweiniad Dyfed-Powys, a oedd yn golygu ymgysylltu'n agos â HGC i dargedu OCG a oedd yn cynnwys sawl aelod OCG Gogledd Cymru, a lleoliadau cuddfannau Gogledd Cymru. Cafodd cocên a heroin purdeb uchel ei fasnachu o ardaloedd Cyffordd Llandudno a Phenmaenmawr i lawr i Geredigion a Sir Gaerfyrddin, lle byddent yn cael eu dosbarthu i gymunedau lleol.
https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/crime-gang-bosses-dealers-couriers-14407554
https://www.dailypost.co.uk/news/drugs-gang-locked-up-almost-14386973
http://www.itv.com/news/wales/2018-03-13/drugs-gang-sentenced/

Mae datblygu Proffil 'Llwybrau i Drosedd Cyfundrefnol Difrifol' yn waith sy'n mynd rhagddo. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd y proffil hwn, wedi'i gynhyrchu o ddata aml-asiantaeth, yn nodi cyfleoedd i ymyrryd yn ystod adegau allweddol taith unigolyn i Droseddau Cyfundrefnol Difrifol.

Yn dilyn Adolygiadau Ardal y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn tair tref fawr Gogledd Cymru, gwnaed nifer o argymhellion i wella'r ymateb aml-asiantaeth i gam-fanteisio'n droseddol ar bobl ddiamddiffyn, wedi'i drefnu gan Grwpiau Trosedd Cyfundrefnol yng Ngogledd Cymru. Cafodd yr argymhellion hyn eu lansio mewn digwyddiad aml-asiantaeth 21 Mawrth, wedi'u hanelu at ysgogi hwb aml-asiantaeth i wella gwasanaeth yn yr ardal hon. Un ffocws allweddol fydd addysgu pobl ifanc am y peryglon o gael eu denu i Drosedd Cyfundrefnol Difrifol.

**Sut ydw i wneud gwneud gwahaniaeth yn ystod y cyfnod hwn?**

- Mae fy swyddfa a finnau wedi bod yn ymchwilio i gynlluniau dargyfeiriol ledled y byd, i fynd i'r afael â'r broblem o gamddefnyddio sylweddau a throseddau cyfundrefnol yn ein cymunedau lleol. Bydd Aelodau o'r Panel yn ymwybodol fy mod wedi bod yn agored iawn am geisio targedu'r achosion sylfaenol o droseddu, yn hytrach na delio â throseddau ar wahân. Oni bai bod achosion sylfaenol troseddu'n cael eu datrys, mae'n annhebygol y bydd troseddwr mynych yn rhoi'r gorau i droseddu unwaith y byddant wedi'u dyfarnu'n euog.

- Rydw i wedi cael cyflwyniadau gan Heddlu Durham ar eu Rhaglen Checkpoint, a Heddlu Avon a Gwlad yr Haf ar Raglen Addysg Bryste. Rydw i ar hyn o bryd yn gweithio’n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru i ddatblygu cynllun dargyfeiriol sydd fwyaf addas i Ogledd Cymru.
- Mae Checkpoint yn gynllun dargyfeiriol ar gyfer troseddwyr lefel isel, sy’n cael ymarferydd am gyfnod o bedwar mis yn hytrach na mynd i’r Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol, gyda'r ymarferydd yn eu helpu i fynd i'r afael â pha bynnag broblemau a all fod ganddynt, fel camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, cyllid neu dai ac ati. Unwaith y bydd y cynllun wedi’i gwblhau, nid yw’r troseddwr yn cael euogfarn troseddol. Fodd bynnag, pe bai’r troseddwr yn methu â chwblhau’r rhaglen, maent yn cael eu dedfrydu fel yr arfer.
- Mae Rhaglen Addysg Bryste yn gynllun/sesiwn 4 awr, yn debyg i gwrs ymwybyddiaeth o gyflymder. Mae troseddwyr sy'n cael eu canfod mewn meddiant o swm bach o gyffuriau'n gymwys i fynd i'r sesiynau. Pwrpas y Rhaglen yw darparu'r cyfle i ddefnyddwyr hamdden osgoi erlyniad, wrth iddynt gael dealltwriaeth o’r niweidiau a achosir drwy ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon. Mae’r cynllun yn lleihau’r galw ar swyddogion rheng flaen sy’n gallu llenwi tocyn, cael gwared ar y sylwedd a delio ag unigolion o fewn 40 munud. Gall y system gyfredol gymryd oriau oherwydd bod swyddogion yn gorfod cludo troseddwyr i ystafelloedd y ddalfa. Yn debyg i’r rhaglen Checkpoint, mae Rhaglen Addysg Bryste hefyd yn cyfeirio unigolion at wasanaethau lleol os oes angen cefnogaeth ychwanegol. Bydd troseddwyr sy’n methu cwblhau’r cwrs yn mynd drwy’r System Cyfiawnder Troseddol fel yr arfer.
- Rydw i wedi ysgrifennu llythyr ar y cyd gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Durham, Ron Hogg, a David Jamieson, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gorllewin Canolbarth Lloegr, at Victoria Atkin AS Gweinidog Troseddau, Diogelu a Bod yn Agored i Niwed, i roi sylw i anghysondebau ei llythyr ynghylch ystyriaeth y Llywodraeth o weithredu Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau. Mae dolen gyswllt i'r llythyr hwn isod.

  2018.05.04 Victoria Atkins MP.pdf

- Fe wnes i gyfarfod gyda chynrychiolwyr o Crimestoppers i drafod Llinellau Sirol a meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn er mwyn gwerthu cyffuriau;

**Blaenoriaeth 5: Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel**


Mae dangosyddion cenedlaethol yn parhau i fod yn gadarnhaol, gyda chyhoedd Gogledd Cymru yn debygol o gytuno bod yr heddlu yn deall (76.0% o’r cyhoedd yn cytuno) ac yn delio â materion cymunedol. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn 7fed ac 13eg uchaf yn y drefn honno, ymhlith yr holl Heddluoedd.

Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr heddlu’n dangos ymgysylltiad iach a chynyddol cymdeithasol a gefnogwyd gan yr Arolwg Hyder Cyhoeddus diweddar a ddangosodd lefelau uwch o ymgysylltiad ac adborth cadarnhaol ar hygyrchedd.

Mae Dyfeisiau Symudol wedi’u dosbarthu i 600 defnyddiwr ychwanegol ym Mawrth. Mae pob swyddog a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn ogystal â rolau staff dethol, gyda mynediad at ddyfeisiau symudol newydd, gan roi’r gallu i ddefnyddwyr fod allan yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu yn hytrach na gorfod aros yn yr orsaf.


Er mwyn bodloni camau gweithredu Cynllun Cyflawni Cymdogaethau Mwy Diogel yr Heddlu, mae cyfarfod newydd wedi’i gyflwyno. Pwrpas y Grŵp yw gweithio’n gydweithredol ledled yr Heddlu gyda rhanddeiliaid allweddol i wella dealltwriaeth a darpariaeth Plismona Cymunedol er mwyn gwella

diogelwch cymunedol; lleihau troseddau, anhrefn a niwed; gwella canfyddiadau cyhoeddus ac adeiladu cysylltiadau cryfach gyda chymunedau.





**Materion Plismona Craidd:**

O ystyried y proffil uchel a roddir i Droseddau Cyllyll yn genedlaethol ar hyn o bryd, fe wnes i holi Heddlu Gogledd Cymru i roi data Troseddau Cyllyll i mi yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol Strategol diwethaf 17 Ebrill 2018.





O'i gymharu â Heddluoedd eraill, mae Gogledd Cymru yn eistedd uwchben y cyfartaledd MSG yn yr 20fed lle yn genedlaethol, 8fed yn ein Grŵp Mwyaf Tebyg a 3ydd yng Nghymru, gyda 0.44 o droseddau cyllyll fesul poblogaeth o 1000.




Mae’r data uchod yn dangos nifer y troseddau, a ddosberthir fel Trais yn erbyn yr Unigolyn, sydd wedi'u cofnodi, lle mae cyllell / llafn / eitem finiog wedi'i chofnodi fel yr arf a ddefnyddiwyd. Mae’r data “Arestiad” yn cyfeirio at y troseddau lle mae o leiaf un unigolyn wedi’i gofnodi fel "Wedi'i arestio".

**Perfformiad Cenedlaethol**

Yn y data mwyaf diweddar a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (cymharu troseddau rhwng Rhagfyr 2016 a Rhagfyr 2017), roedd Heddlu Gogledd Cymru yn y 15fed safle, gyda chynnydd o 18%.




Gwelodd yr heddlu gynnydd yn y mwyafrif o gategorïau, gyda dim ond un gostyngiad yn y categori ‘meddiant o arf ymosodol (gostyngiad o 1%).

**Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol**

Yn yr adran hon rwy'n darparu crynodeb cryno i'r Panel ynglŷn â'r prif bethau yr wyf wedi'u gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

**Ymddeoliad y Prif Gwnstabl**

Bydd y Panel yn ymwybodol bod y Prif Gwbstabl, Mark Polin, wedi cyhoeddi ei ymddeoliad yn ddiweddar o Heddlu Gogledd Cymru. Rwy'n ymwybodol y bydd y Prif Gwnstabl yn bresennol yn y cyfarfod o'r Panel, ac rwy'n siŵr y bydd y Panel yn cymryd y cyfle hwn i ddiolch iddo am y gwaith rhagorol mae wedi'i wneud yn ystod ei gyfnod fel Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

Mae Mark wedi dangos sgiliau arweinyddiaeth gwych ar adeg pan mae'r Heddlu wedi gorfod derbyn toriadau ariannol mawr, wrth geisio delio â throseddau newydd ac sy'n dod i'r amlwg, a'r heriau cymhleth a gyflwynir ganddynt.

Mae Mark wedi bod yn glod i Heddlu Gogledd Cymru ac fe gaiff ei barchu'n fawr, nid yn unig gan ei gydweithwyr, ond ar draws amrediad o bartneriaid y mae'r Heddlu'n gweithio gyda nhw, a'r cymunedau y mae'n ei wasanaethu. Mae wedi effeithio'n sylweddol ar yr ardal, a thrwy ei arweinyddiaeth, mae'r heddlu nawr mewn sefyllfa llawer gwell i fodloni gofynion heriol plismona modern, sydd yn ei dro'n sicrhau y bydd Gogledd Cymru'n parhau i fod yn lle diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Rydw i hefyd yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda Mark, pan fydd yn cymryd ei rôl newydd fel Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'n ddewis ardderchog ac rwy'n edrych ymlaen at nodi ffyrdd newydd a gwell y gall Heddlu Gogledd Cymru a BIPBC gydweithio yn y dyfodol er budd ein cymunedau.

Mae'r broses o recriwtio Prif Gwnstabl newydd wedi dechrau, a byddaf yn trafod y mater hwn gyda Chadeirydd y Panel 23 Mai 2018. Wrth i gynnydd gael ei wneud, byddaf yn parhau i roi gwybodaeth i'r Panel yn rheolaidd. Rwy'n ymroddedig i redeg proses recriwtio deg, agored a thryloyw a fydd yn nodi'r ymgeisydd gorau posibl.

**Ymgysylltu a Chyfathrebu**

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i ymgysylltu â phlismona.

O 1 Mawrth 2018 tan 1 Mai 2018, cwrddais â'r canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru):

- Janet Finch-Saunders AS;
- Myfyrwyr Coleg Llandrillo;
- Staff yng Nghanolfan Weithredol CRC ym Mae Colwyn;
- Halima Achmed ym Mosg y Rhyl;
- Cynrychiolwyr o'r Comisiwn Cyfiawnder;
- Aelodau Sefydliad y Merched ym Mhenrhyndeudraeth;
- Aelodau Merched y Wawr yn Wrecsam;
- Uwch-arolygydd Jo Ramessur Williams ynghylch y Prosiect ACE;
- Prif Weithredwr y Prosiect Kaleidoscope a Menter ARCH;
- Mr Jon Drape ynghylch profion cyffuriau mewn gwyliau;
- Arweinydd Cyffuriau ac Alcohol APCC;

- Uwch-Arolygydd Jason Devenport o Garchar Ei Mawrhydi Berwyn;
- Cynrychiolwyr o PACT (Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned);
- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Derby;
- Staff o'r Tîm Onyx yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol;
- Cyn AC Eleanor Burnham;
- Staff a disgyblion yn Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog;
- Prif Uwch-arolygydd Jon Betts- Cyfarwyddwr Rhaglen Arbenigol Tri Llu.

Fe wnes i hefyd fynd i'r canlynol:

- Ymweld â Gorsaf Heddlu Dinbych;
- Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru (cadeirio);
- Cynhadledd Trais yn erbyn Merched mewn Gwleidyddiaeth;
- Cyfarfod Cyffredinol yr APCC yn Llundain;
- Gwobrau Gwasanaeth Hir yr Heddlu;
- Cynhadledd Plaid Cymru yn Llangollen;
- Cyfarfod Grŵp Plismona Cymru Gyfan;
- Cinio Dydd Gŵyl Dewi yn Rhuthun;
- Siaradwr gwadd mewn digwyddiad a drefnwyd gan Grŵp Seneddol Trawsbleidiol Cyffuriau, Alcohol a Chyfiawnder yn Llundain;
- Cyfarfod y Bwrdd Gweithredol Strategol;
- Panel yr Heddlu a Throsedd;
- Cynhadledd 'Cyfyngu ar ryddid?' Cumberland Lodge;
- Ymweld â'r Ystafell Reoli ynghylch y gwasanaeth 101;
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle, Conwy;
- Ymweld â'r Ganolfan Ymyrraeth Gynnar yn Sir y Fflint;
- Cynhadledd Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Queen Mary, Llundain, "Tystiolaeth a materion yn ymwneud ag ystafelloedd cymryd cyffuriau".
- Grŵp Seneddol Pob Plaid ar Ddiwygio Cyffuriau.

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chyfarfod gyda chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, rwyf i a fy Nirprwy wedi cynnal nifer o weithgareddau cyfryngau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Dynes ddewr yn datgelu cam-drin erchyll**

**Pennaeth yr heddlu'n falch i ennill ail wobr ar gyfer tryloywder**

**Adlach cyfryngau cymdeithasol o ganlyniad i'r sioe deledu a gyhuddir o ladd ar Wrecsam**

**Cipolwg ar orsaf heddlu ecogyfeillgar newydd**

**Pennaeth yr heddlu'n canmol y darlledwr chwaraeon, Gary Lineker a'i alwad am ddiwygio cyfraith cyffuriau**

**Pennaeth yr heddlu'n datgan brwydr yn erbyn pedoffiliaid ar-lein**

**Pennaeth yr heddlu'n galw am gyfreithiau newydd i atal cefnogwyr pêl-droed rhag cael cam**

**Noson Gwobrau Cymunedol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd**

Fel y gwyddoch, rydw i unwaith eto'n cynnal fy ngwobrau cymunedol eleni. Caiff ei gynnal 7 Mehefin 2018, yng Ngwesty'r Celtic Royal yng Nghaernarfon. Rydw i wedi symud y lleoliad eleni, gan fy mod yn gwybod ei fod yn bwysig i symud o gwmpas gwahanol ardaloedd o Ogledd Cymru, yn hytrach nag aros yn llonydd yn y canol. Eleni, rydw i'n falch iawn gweld y digwyddiad yn y Gorllewin o ran ardal yr Heddlu, ac mae'n falch gennyf ddweud eto ein bod â nifer o enillwyr ardderchog a haeddiannol. Maent yn bobl ledled Gogledd Cymru sydd wedi mynd i ymdrech fawr i gadw cymunedau'n ddiogel, ac wedi cynnal gwaith sy'n cyfrannu at fy mlaenoriaethau plismona. Yn y blynyddoedd i ddod, byddaf yn teithio i wahanol ardaloedd i ddod â'r digwyddiad hwn yn agosach at ein holl gymunedau. Rwy'n edrych ymlaen at weld yr aelodau hynny o'r Panel sy'n gallu dod ar y 7fed – mae'n argoeli i fod yn noson dda.

**Y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd:**

Gofynnodd y Panel i gael ei hysbysu am waith y Dirprwy Gomisiynydd. Bydd aelodau panel yn ymwybodol bod Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi bod i ffwrdd yn sâl ers canol Rhagfyr, hyd at ddechrau Mai 2018.

**Comisiynu**

Mae fy 'Nghronfa Ymyrraeth Gynnar' a lansiwyd yn Chwefror 2018, wedi cael llawer iawn o ddiddordeb ac ymateb rhagorol. Cafwyd cyfanswm o 36 datganiad o ddiddordeb. Mae cyfanswm gwerth y 36 datganiad o ddiddordeb yn fwy na £0.6m, er mai dim ond £100,000 yn unig sydd ar gael fesul blwyddyn drwy'r gronfa hon.

Edrychwyd drwy bob cynnig, ac ystyriwyd cyfanswm o 17 cais gan fy Mhanel Cronfa Ymyrraeth Gynnar ddydd Llun 14 Mai, a oedd yn cynnwys Mrs Pat Astbury yn cynrychioli'r Panel Heddlu a Throsedd. Bydd y Datganiadau o Ddiddordeb nawr yn symud ymlaen i'r achos busnes llawn, cyn y gwneir penderfyniad terfynol. Darperir diweddariad ym Medi.

Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar gyfer pob gwasanaeth a gomisiynwyd ar gyfer 2018-19, a bydd diweddariad mwy manwl yn cael ei roi yng nghyfarfod Medi, yn unol â'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y Panel.

**Dioddefwyr**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Bwrdd Llywodraethu Canolfan Gymorth i Ddioddefwyr 25 Ebrill, lle rhoddodd Rheolwr Contractau'r Ganolfan ddiweddariad ynghylch perfformiad cyffredinol y Ganolfan.

Fe wnaeth y cyflwyniad am y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr a roddwyd i'r Panel Heddlu a Throsedd 12 Ebrill ennyn llawer o ddiddordeb gan y wasg leol, o ganlyniad i hyn, rhoddwyd llawer o sylw i'r gefnogaeth a roddwyd gan y Ganolfan i ddioddefwyr Arena Manceinion a'r ymosodiad terfysgol.

**Diweddariad HMIC**

**Adroddiad Effeithlonrwydd PEEL:**

Cafodd Heddlu Gogledd Cymru sgôr gyffredinol o 'da' ar gyfer ei effeithlonrwydd o leihau trosedd a chadw pobl Gogledd Cymru'n ddiogel. Fe wnaeth yr arolygiaeth adolygu pum maes o effeithlonrwydd yr heddlu, gyda phob un o'r ardaloedd hyn yn cael ei sgorio fel 'da'. Mae'r cwestiynau a holwyd gan yr arolygiaeth fel a ganlyn:

1. Atal troseddau a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol - sgôr 'da'
2. Ymchwilio i droseddau a lleihau ail-droseddu – sgôr 'da'
3. Amddiffyn pobl ddiamddiffyn – sgôr 'da'
4. Mynd i'r afael â throseddau trefnedig a difrifol – sgôr 'da'
5. Galluoedd arbenigol – sgôr 'da'.

Yn gyffredinol, rwy'n hapus gyda chanlyniadau'r arolwg hwn, ac rwy'n credu y bydd canlyniad yr arolygiad hwn yn rhoi sicrwydd i bobl Gogledd Cymru. Gweler ein llythyr isod.

2018.04.26 Amber Rudd -PEEL Effective

**Strategaeth Plant a Phobl Ifanc**

Yn dilyn trafodaeth fywiog, mae'r Strategaeth Plant a Phobl Ifanc ddrafft bellach wedi cael cytundeb gan y Prif Gwnstabl a fy Swyddfa. Bydd y cynllun gweithredu ategol yn cael ei ddatblygu dros yr wythnosau i ddod. Bydd y Cynllun Gweithredu yn ddogfen fyw sy'n datblygu dros amser, ac sy'n ddigon hyblyg i adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol a newidiol. Bydd y strategaeth lawn a'r cynllun gweithredu cychwynnol ar gael i'r Panel yng Nghyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Medi.

**Merched yn y Carchar**

Mae nifer o adroddiadau wedi'u cyhoeddi yn ddiweddar ynghylch Merched yn y System Cyfiawnder Troseddol, ac yn fwy penodol, merched yn y carchar. Mae dau o'r adroddiadau hyn yn cynnwys "Mae rheswm pam ein bod mewn trwbl" gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, ac yn fwy diweddar "Dull sy'n canolbwyntio ar y ferch" gan y Ganolfan dros Gyfiawnder Cymdeithasol. Mae Dr Tom Guiney o'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai hefyd wedi cynhyrchu adroddiad sy'n benodol i Ogledd Cymru, sy'n edrych ar y cynnydd mewn merched sy'n cael eu hanfon i garchar yng Ngogledd Cymru.

Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn datgelu bod cyfanswm nifer y merched yng Ngogledd Cymru, sydd wedi'u dedfrydu'n syth i'r ddalfa wedi codi o 74 yn 2010 i 107 yn 2015, cynnydd o bron i 50% mewn 5 mlynedd. Mae hyn wedi'i ysgogi i raddau helaeth gan gynnydd yn y defnydd o ddedfrydau byr iawn o 6 mis neu lai, sydd wedi codi 88% o 40 achos yn 2010 i 75 achos yn 2015. O'i gymharu, mae'r defnydd o'r ddalfa'n syth i ferched mewn mannau eraill yng Nghymru wedi dechrau mynd yn wastad, ac mewn rhai achosion, wedi gostwng.

Mae'r darlun hwn yn awgrymu y bydd angen rhagor o weithredu i ddeall y cynnydd mewn dedfrydau byr o garchar i ferched yng Ngogledd Cymru, ac i ystyried beth y gellir ei wneud i hyrwyddo dewisiadau amgen yn y gymuned. Mae llawer o ferched yn y system cyfiawnder troseddol yn aml yn ddioddefwyr eu hunain o droseddau difrifol, mae llawer yn brif ofalwyr ac yn aml yn dangos sawl angen, ac anghenion cymhleth, y gellir rhoi'r sylw gorau iddynt yn y gymuned. Mae'r achos ariannol dros ail-fuddsoddiad cyfiawnder hefyd yn orfodol, pan fydd cost flynyddol o gadw dynes yng Ngharchar EM

Eastwood Park wedi cyrraedd £31,814 a £36,344 yng Ngharchar EM Styal. Mae hyn yn cymharu â chost gorchymyn cymunedol cyfartalog o oddeutu £2,800.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, fel Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, rydw i wedi cynnull Grŵp Tasg a Gorffen Gostwng Nifer y Merched yn y Carchar, i hybu nifer o argymhellion. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod o'r Grŵp 14 Mai, lle cytunwyd ar gynllun gweithredu.

Amcanion y Grŵp yw:

- Sefydlu map o daith cyfiawnder troseddol i ferched yng Ngogledd Cymru.
- Nodi'r bylchau mewn gwasanaethau sydd ar gael i ferched sy'n droseddwyr.
- Hyrwyddo 'Ymyrraeth Gynnar' i atal merched rhag mynd i'r system cyfiawnder troseddol.
- Hyrwyddo dewisiadau amgen ar gyfer delio â throseddwyr sy'n ferched, er mwyn eu dargyfeirio oddi wrth ail-droseddu.
- Hyrwyddo ymatebion nad ydynt yn golygu carcharu.
- Galluogi penderfyniadau gwybodus.
- Codi ymwybyddiaeth a hyfforddi staff.
- Sefydlu dulliau ar gyfer mesur a gwerthuso.

**Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol**

Ysgrifennodd Liz Saville Roberts AS at David Gauke AS, Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, yn gofyn i mi gael fy enwebu i gynrychioli Cymru ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol. Bydd Aelodau o'r Panel yn ymwybodol fy mod yn Cadeirio Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, ac fy mod yn aelod o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Yn ei ymateb, mae'r Gwir Anrhydeddus David Gauke AS yn cydnabod y pwysigrwydd o ddod â safbwynt Cymreig i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol, ac yn yr amgylchiadau, byddaf yn cael fy ngwahodd i gyfarfodydd o'r Bwrdd sydd angen clywed dimensiwn o gyfiawnder troseddol sy'n benodol i Gymru. Mae David Lloyd, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Hertford, ar hyn o bryd yn cynrychioli'r Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, ers iddo fod yn arweinydd Portffolio APCC ar gyfer Cyfiawnder Troseddol, Effeithlonrwydd System ac Effeithiolrwydd.

**Gohebiaeth**
Ffigurau gohebiaeth o 1 Mawrth hyd at 1 Mai 2018:

| **Categori Gohebiaeth** | **Nifer** |
|---|---|
| Adborth penodol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | *47*#* |
| Adborth cyffredinol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | 49 |
| Cwynion a atgfeiriwyd at PSD | 1 |
| Materion staff | 1 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 254 |

* Cafwyd 20 o eitemau o ohebiaeth oddi wrth 2 unigolyn.

# 5 eitem o ddiolch

**ADRODDIAD I:** Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel)

**DYDDIAD Y CYFARFOD:** 04/06/18

**SWYDDOG ARWEINIOL:** Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Panel Heddlu a Throsedd

**SWYDDOG CYSWLLT:** Dawn Hughes, Uwch-swyddog Cymorth i Banel yr Heddlu a Throsedd

**TESTUN:** Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2017/18

**ADRODDIAD EITHRIEDIG:** Heb ei eithrio

## 1. CRYNODEB A PHWYNTIAU ALLWEDDOL

1.1 Cyhoeddi manylion costau gweinyddol, costau cyfieithu a hawliadau Aelodau unigol o'r Panel am dreuliau a lwfansau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, fel sy'n ofynnol gan Gytundeb y Swyddfa Gartref ar gyfer 2017/18.

1.2 Er mwyn caniatáu craffu cyhoeddus o wariant y Panel, mae gofyniad tryloywder wedi cael ei roi fel amod ar y taliad grant sengl, ac felly bydd angen i'r Panel fel isafswm, ar ei wefan, gyhoeddi manylion ei holl wariant.

1.3 Mae Cylch Gorchwyl y Panel eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi treuliau Aelodau yn flynyddol a'u rhyddhau drwy wefan yr Awdurdod Cynnal, y Panel a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

1.4 Dangosir manylion costau'r Panel ar gyfer 2017/18 yn Atodiad 1 a dangosir manylion treuliau a gaiff eu talu i aelodau unigol y Panel ar gyfer 2017/18 yn Atodiad 2.

.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Cyhoeddi costau gweinyddol a chostau cyfieithu'r Panel a hawliadau Aelodau unigol o'r Panel am dreuliau a lwfansau i'w nodi a'u cyhoeddi fel sy'n ofynnol.

## 3. MANYLION YR ADRODDIAD

3.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu dyraniad grant o £70,975 i'r Awdurdod Cynnal ar gyfer cynnal Panel yr Heddlu a Throsedd i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

3.2 Cyflwynwyd y Panel i graffu ar gamau gweithredu a phenderfyniadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Comisiynwyr). Bydd y Panel yn darparu cefnogaeth a her i'r Comisiynwyr wrth ymarfer eu swyddogaethau.

3.3 Dyrennir y grant o dan dri phennawd: Costau Gweinyddol, Treuliau Aelodau a Chostau Cyfieithu. Gall yr Awdurdod Cynnal drosglwyddo cyllid rhwng y tri phennawd, cyhyd na warir mwy na chyfanswm y grant a hawlir.

3.4 Cymeradwyodd y Panel Gynllun Lwfansau ar 23 Ionawr 2017, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau'r panel fel a ganlyn:

- Gwneir taliadau drwy ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), sydd ag uchafswm sy'n gyfwerth â 7 diwrnod llawn y flwyddyn.
- Mae gan Aelodau'r Panel yr hawl i hawlio lwfansau teithio ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd.

3.5 Mae'n rhaid i'r Panel gyhoeddi manylion y treuliau a dalwyd i'w Aelodau yn flynyddol a bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu i'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru at ddibenion eglurder ac i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu.

3.6 Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol mis Mai 2017, bu'n rhaid i'r Panel newid aelodaeth, gyda 8 o Aelodau Etholedig newydd, oherwydd yr angen am gymeradwyaeth y Swyddfa Gartref i'r Aelodau newydd hyn, bu'n rhaid gohirio cyfarfod cyntaf y Panel yn 2017 tan fis Awst 2017.

3.7 Roedd gwariant y Panel yn 2016/17 yn oddeutu £96,000, serch hynny roedd gwariant yn 2017/18 yn is yn sgil Etholiadau Llywodraeth Leol a gostyngiad yn nifer y cyfarfodydd a drefnwyd o 6 i 5, gan ddileu'r cyfarfod ym mis Tachwedd.

3.8 Mae'n ofynnol i'r Panel roi gweithdrefnau ar waith i fonitro ac olrhain gwariant yn erbyn y gyllideb a gytunwyd, a hefyd tynnu sylw at sut mae gwerth am arian yn cael ei gyflawni. Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r Panel wedi derbyn ei Ddyraniad Grant ar gyfer 2018/19 gan y Swyddfa Gartref, felly nid yw'n gallu darparu gwybodaeth ar hyn o bryd.

**4. DEWISIADAU**

4.1 Dim, mae gofyniad i gyhoeddi manylion treuliau Aelodau.

**5. YMGYSYLLTU/YMGYNGHORI**

5.1 Amherthnasol

**6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

6.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid o £70,975 i'r Awdurdod Cynnal, ar gyfer gweinyddu Panel Heddlu a Throsedd.

**7. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

7.1 Amherthnasol

**8. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB**

8.1 Amherthnasol

**9. POLISÏAU A GWEITHDREFNAU**

9.1 Bydd manylion treuliau Aelodau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Panel.

**10. GOBLYGIADAU O RAN RISG**

10.1 Dim.

**Papurau Cefndir:**
Amherthnasol

**Atodiadau:**
Atodiad 1 – Manylion costau’r Panel ar gyfer 2017/18
Atodiad 2 – Manylion lwfansau a threuliau a dalwyd i aelodau'r Panel ar gyfer 2017/18.

Atodiad 1

**Gwariant Grant y Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer 2017/18**

| | **GWARIANT GWIRIONEDDOL** | **GRANT SYDD AR GAEL** |
|---|---|---|
| COSTAU GWEINYDDOL | 67,491.67 | 53,300 |
| COSTAU AELODAU | 8,918.62* | 11,960 |
| COSTAU CYFIEITHU | 6,368.32 | 5,715 |
| **Cyfanswm** | **£82,778.61** | **£70,975** |

** Mae costau aelodau yn ystyried cyfraniadau YG a didyniadau TAW mewn perthynas â thanwydd*

Atodiad 2

**Lwfansau a threuliau a dalwyd i Aelodau ar gyfer 2017/18 o 10/08/17 - 31/03/18**

| **Aelodau** | **Lwfans** | **Treuliau** |
|---|---|---|
| Pat Astbury | 792.00 | 247.16 |
| Y Cyng. Chris Bithell | 396.00 | 136.80 |
| Y Cyng. Dana Davies | 396.00 | 0 |
| Y Cyng. Julie Fallon | 792.00 | 73.26 |
| Matthew Forbes | 495.00 | 0 |
| Y Cyng. Alan Hunter | 495.00 | 0 |
| Y Cyng. Hugh Irving | 396.00 | 57.60 |
| Y Cyng. Eric Jones | 594.00 | 134.10 |
| Y Cyng. Peter Read | 495.00 | 178.65 |
| Y Cyng. Dylan Rees | 594.00 | 128.70 |
| Y Cyng. Neville Phillips | 495.00 | 167.34 |
| Mr John Williams | 792.00 | 234.29 |
| Y Cyng. Nigel Williams | 495.00 | 193.05 |
| **Cyfanswm** | **7227.00** | **1550.95** |

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 01492 576061 |

| Date | Subject | Responsible Officer (including e-mail address) |
|---|---|---|
| | | |
| **4 June 2018** | **Diweddariad gan y Prif Gwnstabl** | Mr. Mark Polin, Prif Gwnstabl |
| **4 June 2018** | **Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2017/18** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol |
| **24 Sept 2018** | **Adolygiad blynyddol o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd**<br>Sicrhau bod Aelodau Etholedig y Panel, hyd y gellir, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol gogledd Cymru. | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol |
| **24 Sept 2018** | **Fframwaith Comisiynu 2017/18**<br>Nodi effaith a chanlyniadau'r grantiau a ddyfarnwyd. | Arfon Jones, Police and Crime Commissioner |
| **24 Sept 2018** | **Derbyn Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2017/18** | Arfon Jones, Police and Crime Commissioner |
| **24 Sept 2018** | **Cwynion a dderbyniwyd**<br>Derbyn crynodeb o nifer y cwynion a dderbyniwyd a'r camau | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol |
| **24 Sept & 3 Dec 2018** | **Diweddariad ar y Gyllideb ar gyfer 2018/19** | Kate Jackson, Chief Finance Officer (OPCC) |
| **3 Dec 2018** | **Diweddariad ar Gyllideb Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2018/19** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol |
| **3 Dec 2018** | **Fframwaith Comisiynu 2018/19** | Arfon Jones, Police and Crime Commissioner |

| Date | Subject | Responsible Officer (including e-mail address) |
|---|---|---|
| **28 Jan 2019** | **Cyllideb ac Adroddiad Gosod Praesept 2019/20**<br>Ystyried praesept arfaethedig ar gyfer 2019/20 | Arfon Jones, Police and Crime Commissioner |
| **Future Items** | | |
| **TBC** | **Adolygu Cylch Gorchwyl y Panel Heddlu a Throsedd**<br>Adolygu'r Cylch Gorchwyl i sicrhau ei fod yn addas i'w bwrpas. | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol |
| **TBC** | **Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer y Prif Gwnstabl** | Arfon Jones, Police and Crime Commissioner |